Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

## 2022-23




**Llais ac eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn**

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

**Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.**

# Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:


Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Trydar: @comisiwnphcymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru


# Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

# Cynnwys

## Adroddiad ar Berfformiad

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **04** |
| **Fy rôl fel Comisiynydd** | **09** |
| **Rhaglen Waith 2022-24** | **10** |
| **Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd** | **11** |
| **Cipolwg ar y flwyddyn 2022-23** | **10** |
| **Adroddiad Blynyddol** | **15** |
| **Adolygiad o gyllid a pherfformiad ariannol** | **33** |
| **Adroddiad ar Gynaliadwyedd** | **34** |


## Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad ac yn arfer llywodraethu corfforaethol da. Mae'n cynnwys y canlynol:


| | |
|---|---|
| **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** | **37** |
| **Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** | **40** |
| **Datganiad Llywodraethu** | **41** |
| **Adroddiad ar staff a thaliadau** | **46** |
| **Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd** | **59** |


## Y Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol, ochr yn ochr â nodiadau esboniadol ac ategol, yn cynnwys y canlynol:


| | |
|---|---|
| **Datganiadau Ariannol** | **63** |
| **Nodiadau i'r Cyfrifon** | **68** |

# Rhagair



Pan ysgrifennais y rhagair ar gyfer fy adroddiad blynyddol y llynedd, fe wnes i fyfyrio ar yr ymdeimlad o obaith ymysg llawer o bobl bod y pandemig yn dod i ben ac y byddai mwy o gyfleoedd i ailgysylltu â'r bobl a'r gweithgareddau sy'n bwysig i ni.

Ond wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, cafodd hyn ei ddisodli rywfaint gan yr argyfwng costau byw, a oedd yn gorfodi llawer o bobl hŷn i dorri'n ôl ar hanfodion gan eu bod yn wynebu biliau amhosibl.

Ar sail yr hyn yr oedd llawer o bobl hŷn yn ei ddweud wrthyf, roedd yr optimistiaeth roeddent wedi'i deimlo yn diflannu wrth i gostau ynni fwy na dyblu, ochr yn ochr â gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu pwysau sylweddol. Ar ben hynny, mae llawer o bobl hŷn yn dal i gael trafferth o ran cael yr hyder i fynd allan i'w cymunedau unwaith eto.

Cafodd y mathau hyn o bryderon eu hadlewyrchu yng nghanfyddiadau arolwg a gynhaliwyd gennyf yn ystod gwanwyn eleni i gofnodi profiadau pobl hŷn sy'n byw ledled Cymru, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond 40% o bobl dros 60 oed oedd yn teimlo'n optimistaidd am y dyfodol (hanner lefel 2021), a bod lefelau uchel o bryder am y GIG, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Yr wyf wedi bod, a byddaf yn parhau i fod, yn hyrwyddwr brwd o'r materion hyn, a'r materion eraill sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn ar hyn o bryd, gan weithredu ar eu rhan yn y gobaith y bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i bobl hŷn bod rhywun yn sefyll i fyny ac yn siarad o'u plaid yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn fwy cadarnhaol, gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2022-23 mewn nifer o feysydd allweddol, gan adeiladu ar gamau gweithredu yn ystod y blynyddoedd blaenorol a phwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth o ran sicrhau newid i bobl hŷn.

Roedd hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid ledled Cymru, a'u cefnogi i fwrw ymlaen â chynlluniau i wneud eu cymunedau'n fwy oed-gyfeillgar – sy'n hanfodol o ran ein galluogi i heneiddio'n dda – a chwblhau eu ceisiadau i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, yr wyf yn aelod cyswllt ohono. Mae Ynys Môn, Caerdydd a Sir y Fflint eisoes wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus i ymuno â'r Rhwydwaith, gan gydnabod eu hymrwymiad i weithredu a mentrau oed-gyfeillgar, a disgwylir i lawer mwy ymuno yn y misoedd i ddod.

O ran fy mlaenoriaeth i atal cam-drin pobl hŷn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun gweithredu cenedlaethol drafft, sy'n canolbwyntio'n benodol ar atal cam-drin pobl hŷn, yn ogystal â chydnabod pobl hŷn a'u hanghenion penodol yn y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) sydd wedi'i diweddaru, gyda'r ddau yn cynrychioli camau pwysig i'r cyfeiriad cywir.

Yn ystod 2022-23, fe wnes i hefyd gyflawni prosiectau sylweddol i wella dealltwriaeth a thystiolaeth mewn meysydd nad oes digon o ymchwil iddynt, gan archwilio profiadau pobl hŷn nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Roedd hyn yn cynnwys ymchwil ansoddol i brofiadau dynion hŷn o gam-drin, gan gynnwys y stigma a'r rhwystrau y mae llawer o ddynion yn aml yn eu hwynebu wrth geisio cymorth, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â galwadau am weithredu gan Lywodraeth Cymru a chyrff allweddol.

Rwyf hefyd wedi sefydlu Grŵp Cynghori sy'n cynrychioli pobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, i roi cyngor ar ymchwil i brofiadau pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Gan ddefnyddio eu cyngor, rhoddais gyllid i sefydliadau lleol ledled Cymru i gysylltu â phobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i glywed am eu profiadau o fynd yn hŷn, ac unrhyw broblemau ac anawsterau penodol y maent yn eu hwynebu. Byddaf yn adeiladu ar hyn yn y flwyddyn i ddod, gan weithio gyda phartneriaid i alw am weithredu wedi'i dargedu a chyflawni newid. Mae fy ngwaith hefyd wedi adlewyrchu materion parhaus a rhai sy'n dod i'r amlwg ar gyfer pobl hŷn, sydd wedi codi oherwydd y pandemig neu'r argyfwng costau byw.

Roedd hyn yn cynnwys datblygu canllaw ar hawliau pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a ddosbarthwyd i bob cartref gofal yng Nghymru ac yn ehangach drwy feddygfeydd, fferyllfeydd a lleoliadau cymunedol eraill.

Rwyf hefyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl i gyrchu gwybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol, ac wedi archwilio a oes digon o gamau'n cael eu cymryd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynnal yr hawliau hyn.

Roedd sicrhau nad oedd pobl hŷn yn colli allan ar gymorth ariannol yn ffocws allweddol arall o fy ngwaith, ac roeddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o Gredyd Pensiwn ymysg pobl hŷn a'u teuluoedd, yn ogystal â gweithio gyda chyrff a sefydliadau allweddol i nodi ffyrdd effeithiol o estyn allan at bobl hŷn ac annog pobl i hawlio'r hyn y maen nhw'n gymwys i'w gael a'r hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo.

Roedd clywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn ledled Cymru am y materion sy'n effeithio ar eu bywydau, a'r pethau sy'n cefnogi pobl i heneiddio'n dda, yn dal yn flaenoriaeth i mi drwy gydol y flwyddyn, ac mae wedi bod yn gadarnhaol iawn cael cyfleoedd i gwrdd ac i siarad â phobl hŷn yn eu cymunedau, boed mewn digwyddiadau mwy neu mewn grwpiau a chlybiau llai.

Mae'r ymgysylltu hwn yn darparu gwybodaeth a thystiolaeth hollbwysig i gefnogi fy ngwaith i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer ar lefel genedlaethol a lleol, sydd wedi cynnwys ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd a swyddogion; darparu tystiolaeth i

Bwyllgorau'r Senedd; a chraffu ar waith cyrff cyhoeddus i nodi arferion da a lle gallai fod angen gwelliannau pellach.

Ar lefel bersonol, rwyf wedi treulio amser yn dod â llawer iawn o dystiolaeth at ei gilydd i'w rhannu ag Ymchwiliad Covid-19 y DU i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn a'u teuluoedd yn cael eu cofnodi, ac i helpu i lywio'r canfyddiadau mewn ffordd ystyrlon.

Mae hefyd wedi bod yn gadarnhaol gweld ein gwaith yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cael sylw fel rhan o ymgyrchoedd ar gyfer Comisiynwyr yn Lloegr a'r Alban. Rwy'n gwybod bod pobl hŷn yng Nghymru yn gwerthfawrogi cael Comisiynydd annibynnol yn fawr, a gallai rolau tebyg mewn rhannau eraill o'r DU helpu i drawsnewid bywydau miliynau o bobl hŷn, yn ogystal â darparu cyfleoedd pwysig i Gomisiynwyr siarad â llais cyfunol ar faterion allweddol, a fyddai'n gyfrwng pwerus ar gyfer newid.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n gweithio gyda mi drwy gydol y flwyddyn – yn enwedig pobl hŷn a phartneriaid – am eu cefnogaeth i fwrw ymlaen â'm blaenoriaethau a'm gwaith ehangach i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer, yn ogystal ag i'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am y cyngor a'r cwnsela defnyddiol y maent yn eu darparu.

Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau fy nhîm am eu holl waith caled, eu hymroddiad a'u hymrwymiad o ran cefnogi fy ngwaith i wneud Cymru'n genedl oed-gyfeillgar lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.



**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**"Yr wyf wedi bod, a byddaf yn parhau i fod, yn hyrwyddwr brwd o'r materion hyn, a'r materion eraill sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn ar hyn o bryd, gan weithredu ar eu rhan yn y gobaith y bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i bobl hŷn bod rhywun yn sefyll i fyny ac yn siarad o'u plaid yn ystod y cyfnod heriol hwn."**



# Adroddiad ar Berfformiad

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan roi sylw i'r ystyriaethau allweddol a'r risgiau a wynebwyd yn 2022-23.

## Fy rôl fel Comisiynydd

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru, a hynny yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 10 (1) (b).

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw gwarchod a hybu hawliau pobl 60 oed a hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau.

Rwy'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy fy nhîm Cyngor a Chymorth, ac rwy'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud.

## Fy nghylch gwaith fel Comisiynydd

Fel y nodwyd yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a sefydlodd y swydd, cylch gwaith y Comisiynydd yw:

- **Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny;**
- **Hyrwyddo'r cyfleoedd a ddarperir i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu rhagfarn yn eu herbyn;**
- **Hybu'r arferion gorau o ran y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru; a**
- **Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.**

# Fy Ngweledigaeth a'm Gwerthoedd

Wrth i ni fynd yn hŷn, mae pob un ohonom eisiau cael yr ansawdd bywyd gorau posibl a pharhau i wneud y pethau sy'n bwysig i ni.

Mae hyn yn golygu cael ein harfogi a'n grymuso i ymateb i'r heriau y gallwn eu hwynebu wrth i ni heneiddio, sy'n cynnwys deall ein hawliau er mwyn i ni allu sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed a herio arferion gwael, a gallu cyrchu gwasanaethau a chymorth yn hawdd os bydd eu hangen arnom.

Mae angen i ni hefyd ddathlu'r ffaith ein bod yn gymdeithas sy'n heneiddio, yn ogystal â'r cyfraniad sylweddol y mae pobl hŷn yn ei wneud i'n bywydau, sy'n hanfodol i fynd i'r afael â'r oedraniaeth a'r gwahaniaethu sy'n ein dal ni'n ôl, sydd hefyd yn helpu i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil hyn.

Ar ben hynny, mae'n bwysig hyrwyddo arferion da ac arloesi er mwyn ysbrydoli gweithredu, ochr yn ochr â dylanwadu, craffu, herio a dal cyrff cyhoeddus yn atebol pan fo angen.

Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'm gwaith fel Comisiynydd, ac maent yn hanfodol i gyflawni fy ngweledigaeth o Gymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a neb yn cael ei adael ar ôl.

## Ymddygiadau a Gwerthoedd Mewnol y Sefydliad

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau sefydliadol yn gyrru ein diwylliant ac yn gosod sail i'n hamcanion perfformiad personol. Mae'r gwerthoedd yn rhoi teclyn defnyddiol i ni rydym ni'n ei ddefnyddio i ddal ein hunain i gyfrif am y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud.



**Un Tîm**

Rhoi nodau a rennir o flaen agendâu unigol

Cynnig cymorth i bobl eraill mewn modd rhagweithiol



**Parchus**

Mynd ati'n weithredol i ofyn am farn pobl eraill

Gwerthfawrogi gwahanol syniadau a safbwyntiau



**Cynhwysol a Chyfeillgar**

Talu sylw i'n llesiant ein gilydd

Bod yn garedig, yn groesawgar ac yn gefnogol gyda phawb

Ystyried yr hyn rydyn ni'n ei ddweud a'i wneud, ac effaith hynny ar bobl eraill




**Agored**

Herio mewn modd adeiladol a bod yn barod am her

Dysgu gan bobl eraill

Chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau bob amser



**Uchelgeisiol**

Bod yn frwd dros ein gweledigaeth

Anelu at ragoriaeth

Bod yn flaengar ac yn barod i gymryd risgiau rhesymol i gael effaith



**Gonestrwydd**

Ymdrechu i wneud y pethau iawn a chymryd cyfrifoldeb dros ein gwaith

Gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud ein bod ni am ei wneud



# Rhaglen Waith 2022-24

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddais fy rhaglen waith 2022-24, yn nodi'r camau rydw i'n eu cymryd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn fy Strategaeth ar gyfer 2019, Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo – rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda – yn ogystal â maes blaenoriaeth ychwanegol: diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.

Mae fy rhaglen waith wedi'i chynllunio i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o ran mynd i'r afael â materion sydd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig, yn ogystal â materion eraill sydd wedi dod i'r amlwg wedyn, fel yr argyfwng costau byw.

Mae estyn allan at bobl hŷn ledled Cymru ac ymgysylltu â nhw yn dal yn hanfodol o ran cyflawni fy rhaglen waith, ac mae sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u hystyried gan wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau, ac yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu polisïau a gwasanaethau, yn parhau i fod yn hanfodol.

Mae rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd yn erbyn pob un o'm blaenoriaethau a'm gwaith ehangach – sy'n canolbwyntio ar ddylanwadu ar bolisi, darparu cyngor a chymorth yn uniongyrchol i bobl hŷn a hyrwyddo arferion da – wedi'i nodi isod.

# Cipolwg ar y flwyddyn 2022-23




## Ebrill 2022

Galwadau am i hawliau dynol fod yn sylfaen i Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU.


Dosbarthu copïau o 'Sut i osgoi oedraniaeth wrth gyfathrebu' i gyrff cyhoeddus a sefydliadau rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru.



## Mai

Yn dweud bod gwella hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn hanfodol fel rhan o dystiolaeth lafar i Ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ar Gomisiynu Cartrefi Gofal.

Galwadau i ddynion sydd wedi cael eu cam-drin i rannu eu profiadau fel rhan o ymchwil i wella gwasanaethau cymorth cam-drin.



## Mehefin

Cynnal gweminar Cymunedau Oed-gyfeillgar mewn Partneriaeth i rannu arferion da er mwyn cefnogi pobl hŷn i heneiddio'n dda, a dathlu gweithredu cadarnhaol.

Cyhoeddi gwaith ymchwil ar brofiadau bywyd pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.



## Gorffennaf

Crynhoi, cyhoeddi a dosbarthu canllaw costau byw – ar-lein a chopïau papur – i ddarparu gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i bobl hŷn.

Croesawu cadarnhad y bydd Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru yn cael ei ymestyn i gynnwys aelwydydd sy'n derbyn Credyd Pensiwn, ar ôl galw am hyn yn gynharach yn y flwyddyn.



## Awst

Cyhoeddi canfyddiadau gwaith ymchwil sy'n edrych ar brofiadau dynion hŷn sy'n cael eu cam-drin, a nodi cyfres o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

Cyhoeddi papur briffio sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i gefnogi pobl hŷn drwy'r argyfwng costau byw.



## Medi

Cyhoeddi crynodeb o ymatebion gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd i'r canllawiau ffurfiol a gyhoeddwyd yn 2021-22 i dynnu sylw at gamau gweithredu i sicrhau bod pobl hŷn nad ydynt ar-lein yn dal i allu cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt, a lle mae angen gwneud rhagor o waith.

Mynegi pryderon bod y Prif Weinidog wedi colli cyfle hollbwysig yn y gyllideb fach i ddarparu cymorth ariannol hanfodol i bobl hŷn.



## Hydref

Lansio canllaw newydd i ddarparu gwybodaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd am yr hawliau sydd gennym wrth symud i gartref gofal, neu fyw ynddo, a ble i gael cymorth a chefnogaeth.

Cynnal gweminar i edrych ar y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad ar brofiadau dynion hŷn o gam-drin.



## Tachwedd

Cyhoeddi papur briffio sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i gynyddu'n sylweddol nifer y bobl hŷn sy'n cael y Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo.

Yn galw ar unigolion a sefydliadau i wneud Addewid Credyd Pensiwn, er mwyn tynnu sylw at y camau y byddan nhw'n eu cymryd i helpu i sicrhau nad yw pobl hŷn yn colli allan ar Gredyd Pensiwn.



## Rhagfyr

Cynnal Uwchgynhadledd Credyd Pensiwn i ddod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i archwilio'r ffyrdd o estyn allan yn effeithiol at bobl hŷn a'u hannog i hawlio Credyd Pensiwn.

Ymuno â dros 150 o sefydliadau fel llofnodwr llythyr ar y cyd sy'n tynnu sylw at pam mae hawliau dynol yn bwysig i bob un ohonom.



## Ionawr

Cyhoeddi canfyddiadau'r Uwchgynhadledd Credyd Pensiwn.

Yn galw am weithredu am weithredu gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ganfod pobl hŷn a allai fod ar eu colled.



## Chwefror

Ymateb i ganfyddiadau Ymchwiliad y CCHD/EHRC i herio penderfyniadau gofal cymdeithasol, gan dynnu sylw at bryderon y 'gwneir cam' ag oedolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol pan fyddant yn ceisio herio penderfyniadau gofal neu wneud cwynion.

Croesawu cyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru, a'r uchelgais i sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop.




## Mawrth 2023

Siaradwr gwadd mewn digwyddiadau oed-gyfeillgar yn Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn, sydd hefyd yn darparu cyfleoedd i gwrdd ac i siarad â phobl hŷn a rhanddeiliaid, ac i ddysgu mwy am y gwahaniaeth cadarnhaol y mae mentrau lleol yn ei wneud i fywydau pobl.

Lansio fersiwn wedi'i diweddaru o'r Canllawiau Hwylus ar Atwrneiaeth Arhosol, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

# 2022-23 mewn rhifau

| | |
|---|---|
| **568** | Nifer y bobl hŷn a gefnogir gan Dîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd |
| **29,708** | Nifer yr unigolion a ymwelodd â Gwefan y Comisiynydd |
| **88,529** | Nifer y tudalennau a welwyd ar wefan y Comisiynydd |
| **1,750** | Nifer yr ymweliadau â Chyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth Cam-drin y Comisiynydd |
| **413,500** | Nifer yr argraffiadau Twitter (nifer o weithiau y gwelwyd negeseuon gan y Comisiynydd) |
| **36,228** | Nifer y bobl a gyrhaeddwyd gyda negeseuon o dudalen Facebook y Comisiynydd |
| **82** | Nifer yr eitemau newyddion yn ymwneud â gwaith y Comisiynydd |





# Diogelu a Hyrwyddo Hawliau Pobl Hŷn

Yn dilyn y materion difrifol a welsom yn ystod y pandemig, a'r pryderon a godwyd gennyf fi a nifer o bobl eraill, roedd ffocws parhaus ar hawliau pobl hŷn ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd 2022-23 yn cynnwys gwaith parhaus gyda sefydliadau allweddol i nodi ffyrdd y gellid diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn yn fwy effeithiol, a bwrw ymlaen â'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau newid ystyrlon. Ochr yn ochr â hyn, fe wnes i hefyd ddatblygu adnoddau newydd i rymuso a chefnogi pobl hŷn i ddeall a chodi pryderon am eu hawliau'n well.

### Roedd y gwaith yn ystod 2022-23 yn cynnwys:

- Lansio canllaw newydd i helpu pobl hŷn a'u teuluoedd i ddeall yn well beth yw hawliau pobl wrth symud i gartref gofal yng Nghymru, a byw yno. Mae'r canllaw yn tynnu sylw at hawliau nad yw pobl yn ymwybodol ohonynt yn aml – fel yr hawl i fod yn rhan o benderfyniadau gofal a hawliau sy'n ymwneud â chyswllt â theulu – ac mae'n darparu gwybodaeth am yr hyn y gall pobl ei wneud os ydynt yn poeni nad yw eu hawliau'n cael eu cynnal a sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth a chefnogaeth.
- Dosbarthu copïau o'r canllaw i bob un o'r tua 1,000 o gartrefi gofal yng Nghymru, er mwyn eu cynnwys mewn pecynnau croeso a'u harddangos mewn mannau cymunedol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r canllaw wedi cael ei ddosbarthu i ysbytai, meddygfeydd, fferyllfeydd, llyfrgelloedd a mannau cymunedol eraill, ac mae'n cael ei hyrwyddo drwy hysbysebion mewn papurau newyddion – er mwyn estyn allan at bobl hŷn nad ydynt ar-lein – a chan randdeiliaid drwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol. Hyd yma, mae dros 7,500 o gopïau papur o'r canllaw wedi cael eu dosbarthu ac mae'r fersiwn digidol wedi cael ei lawrlwytho dros 700 o weithiau.
- Treialu sesiwn holi ac ateb galw heibio ar-lein ar hawliau mewn cartrefi gofal i roi cyfle i bobl hŷn a'u teuluoedd ddysgu mwy am eu hawliau a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Roedd yr adborth o'r sesiwn hon yn gadarnhaol iawn, ac mae rhagor o sesiynau tebyg yn cael eu cynllunio ar gyfer 2023-24.
- Gwaith partneriaeth parhaus gydag aelodau'r grŵp hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, sy'n dod â sefydliadau o Gymru a ledled y DU at ei gilydd, gyda'r nod o gryfhau hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal:
    - Codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, a hyrwyddo urddas, parch a chynnal hawliau;
    - Cynhyrchu gwybodaeth am Hawliau Dynol a hawliau cyfreithiol;
    - Gweithio gyda rheoleiddwyr y gwasanaeth a'r gweithlu i wreiddio Hawliau Dynol mewn fframweithiau arolygu ac o fewn ymarfer gofal cymdeithasol;
    - Gwella sicrwydd deiliadaeth preswylwyr;
    - Cynyddu mynediad preswylwyr cartrefi gofal at eiriolaeth annibynnol, yn enwedig i'r preswylwyr hynny heb deulu na ffrindiau;
    - Datblygu dull strategol o ddefnyddio data cwynion i wella ymarfer;
    - Dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth.
- Gan adeiladu ar waith gyda'r Grŵp Cynghori a sefydlais yn 2021, rhoddais gefnogaeth i 14 o sefydliadau ac unigolion sydd â chysylltiadau cymunedol cryf i archwilio profiadau bywyd pobl hŷn o Gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Casglu lleisiau pobl hŷn o amrywiaeth eang o gymunedau sy'n nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys cymunedau ffoaduriaid a Sipsiwn-Teithwyr, drwy gyfweliadau ansoddol manwl, lled-strwythuredig, i nodi materion allweddol sy'n effeithio ar grwpiau lluosog, yn ogystal â heriau sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn o gymunedau penodol. Byddaf yn defnyddio fy nghanfyddiadau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth â phobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal â'r sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau, i sbarduno newid a gwelliannau.
- Adolygu ymatebion awdurdodau lleol a byrddau iechyd i'r canllawiau ffurfiol a gyhoeddais yn 2021-22 – a oedd yn nodi'r mathau o gamau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod pobl hŷn nad ydynt ar-lein yn dal i allu cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt – a darparu adborth unigol yn ysgrifenedig ar feysydd lle gallai camau pellach gael effaith gadarnhaol.
- Cyhoeddi adroddiad cryno o'r ymatebion gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd i dynnu sylw at yr amrywiaeth o brosiectau ac arferion da sydd ar waith i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol a mynd i'r afael ag allgau digidol ymysg pobl hŷn a sefydlu hyb arferion da ar fy ngwefan.
- Ochr yn ochr â'r prosiectau sylweddol hyn, mae fy nhîm a minnau wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill i wneud y canlynol:
    - Dylanwadu ar ddatblygiad deddfwriaeth hawliau dynol yng Nghymru i sicrhau ffocws digonol ar bobl hŷn a'u hawliau.
    - Archwilio'r ffyrdd y gellid gwella'r broses a'r cyfathrebu sy'n ymwneud â hysbysiadau Peidiwch â Cheisio CPR er mwyn sicrhau bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn briodol ac yr ymgynghorir â nhw fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.
    - Sicrhau bod anghenion pobl hŷn sy'n anabl yn cael eu hystyried fel rhan o waith y Tasglu Hawliau Anabledd, gan gynnwys pobl ag anabledd a phobl sy'n profi anabledd wrth iddynt heneiddio.

# Rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed

Mae gwaith ymchwil gan Sefydliad Iechyd y Byd yn awgrymu bod gan oddeutu hanner poblogaeth y byd agweddau oedraniaethol, a gwyddom fod oedraniaeth yn sail i lawer o'r materion sy'n wynebu pobl hŷn. Mae stereoteipiau a thybiaethau am bobl hŷn a heneiddio yn gyffredin, wedi'u hatgyfnerthu'n aml gan bortreadau negyddol ar draws gwahanol fathau o gyfryngau, sy'n arwain at driniaeth annheg a gwahaniaethu, ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gefnogaeth y gallai fod eu hangen arnom i heneiddio'n dda.

Roedd 2022-23 yn cynnwys gwaith parhaus gyda sefydliadau allweddol i nodi ffyrdd y gallai hawliau pobl hŷn gael eu diogelu a'u hyrwyddo'n fwy effeithiol, a gweithredu'r camau sydd eu hangen i sicrhau newid ystyrlon. Ochr yn ochr â hyn, datblygais adnoddau newydd hefyd i rymuso a chefnogi pobl hŷn i ddeall a chodi pryderon am eu hawliau'n well.

### Roedd y gwaith yn ystod 2022-23 yn cynnwys:

- Hyrwyddo a dosbarthu fy llyfryn Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth, sy'n grymuso pobl hŷn i adnabod a herio gwahanol fathau o oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, yn ogystal â darparu manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth a chefnogaeth.
- Dosbarthu fy arweiniad 'Sut i osgoi oedraniaeth wrth gyfathrebu', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, i gyrff cyhoeddus, partneriaid rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl hŷn ledled Cymru. Mae'r canllaw yn cynnwys awgrymiadau ymarferol i helpu sefydliadau i osgoi iaith a delweddau oedraniaethol, yn ogystal ag enghreifftiau o arferion da.
- Gwaith parhaus gyda'r Ganolfan Heneiddio'n Dda i hyrwyddo canllawiau i newyddiadurwyr ar ysgrifennu am henaint a heneiddio, sy'n cynnwys gwybodaeth ac awgrymiadau ar iaith, tôn a delweddau, ochr yn ochr â galw ar Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg i ddiweddaru ei god i olygyddion i gynnwys oedran fel 'nodwedd warchodedig'.
- Gweithio gydag Aelodau o'r Senedd a sefydliadau allweddol drwy ddarparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau, sy'n hyrwyddo undod a dealltwriaeth rhwng cenedlaethau, sy'n hanfodol i herio stereoteipiau a rhagdybiaethau sy'n aml yn arwain at oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran.



# Atal cam-drin pobl hŷn

Er bod mwy a mwy o gydnabyddiaeth a dealltwriaeth o raddfa cam-drin pobl hŷn a'r ffyrdd y mae'n effeithio ar fywydau pobl, mae nifer sylweddol – yr amcangyfrifir eu bod yn y miloedd – o bobl hŷn yng Nghymru yn cael eu cam-drin ac yn aml yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Yn ystod 2022-23, cynhaliais ragor o waith ymchwil i fynd i'r afael â'r bylchau mewn data sy'n ymwneud â phrofiadau pobl hŷn o gam-drin – gan gynnwys archwilio profiadau dynion hŷn – yn ogystal â gweithio gydag aelodau o'm Grwpiau Llywio a Gweithredu ar Atal Cam-drin i fwrw ymlaen â chamau gweithredu yn erbyn nifer o flaenoriaethau allweddol, gan gynnwys dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth, hyrwyddo arferion da, gwella hyfforddiant i staff a chynyddu gwybodaeth ymysg ymarferwyr a'r cyhoedd yn ehangach.

### Roedd y gwaith yn ystod 2022-23 yn cynnwys:

- Cyhoeddi adroddiad ym mis Mehefin 2022 yn edrych ar brofiadau dynion hŷn o gam-drin, yn seiliedig ar gyfweliadau manwl gyda dynion sydd wedi goroesi cam-drin a sefydliadau allweddol sy'n darparu gwasanaethau cymorth cam-drin. Ochr yn ochr â'm prif ganfyddiadau – bod dynion hŷn yn aml yn amharod i ofyn am gymorth oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â bod yn ddyn sy'n cael ei gam-drin, a'u bod nhw'n wynebu rhwystrau sylweddol wrth geisio cymorth a chefnogaeth – roedd fy adroddiad hefyd yn galw am weithredu gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i wneud y canlynol:
  - gwella gwasanaethau a chymorth drwy godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o brofiadau dynion hŷn;
  - darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl hŷn fel y gallant adnabod camdriniaeth a chynnig cymorth priodol;
  - gwella data a thystiolaeth sy'n ymwneud â phrofiadau dynion hŷn o gam-drin domestig i sicrhau bod y polisïau a'r gwasanaethau cywir ar waith i ddynion hŷn gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.
- Cynnal digwyddiad gweminar i archwilio canfyddiadau fy adroddiad a'r camau gweithredu sydd eu hangen, yn ogystal â darparu diweddariad am y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud ac archwilio ffyrdd o gydweithio i adeiladu ar hyn. Daeth dros 230 o gynrychiolwyr i'r digwyddiad, a glywodd gan ddyn hŷn a oedd wedi cael ei gam-drin am y rhwystrau yr oedd yn eu hwynebu o ran cael cymorth, yn ogystal â chan arbenigwyr eraill am yr hyn y mae angen ei newid.
- Codi ymwybyddiaeth o fy nghanfyddiadau, a'r camau y gall sefydliadau eu cymryd i wella'r gefnogaeth i ddynion hŷn sy'n cael eu cam-drin, yn ehangach mewn digwyddiadau allweddol – gan gynnwys Cynhadledd Gwasanaeth Diogelu GIG Cymru, Cynhadledd Prosiect Hope Age Cymru a Chynhadledd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Heddlu – ac estyn allan at ddynion hŷn drwy sefydliadau 'nad ydynt yn rhan o'r sector' fel Men's Sheds.

- Hyrwyddo fy Nghyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth Cam-drin, sy'n galluogi pobl hŷn, aelodau teulu, ffrindiau a rhanddeiliaid i ddod o hyd i wasanaethau a chymorth yn eu hardal leol a all helpu os ydynt yn profi camdriniaeth, yn pryderu y gallent fod mewn perygl, neu'n poeni am rywun arall. Ochr yn ochr â datblygu pecyn cyfryngau cymdeithasol i alluogi rhanddeiliaid i rannu gwybodaeth am y cyfeiriadur drwy eu sianeli, fe wnes i hefyd gysylltu â phobl hŷn sydd ddim ar-lein, gan ddosbarthu posteri i'w harddangos mewn mannau cymunedol er mwyn darparu gwybodaeth drwy gyfres o hysbysebion wedi'u cydlynu mewn papurau newyddion a gyhoeddwyd ledled Cymru.
- Lansio fersiwn wedi'i diweddaru o'm Canllawiau Hwylus ar Atwrneiaeth Arhosol, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n helpu pobl hŷn a'u teuluoedd i ddeall yn well sut gall Atwrneiaeth Arhosol sicrhau bod eu penderfyniadau yn y dyfodol, mewn perthynas â chyllid, iechyd a lles, yn cael eu diogelu, ac yn darparu atebion i gwestiynau cyffredin am y broses a'r trefniadau.
- Gweithio gydag aelodau Is-ffrwd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol, sy'n ffocysu ar gam-drin pobl hŷn, a gafodd ei sefydlu yn dilyn galwadau a wnes yn fy ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Dyma ddatblygiad pwysig o ran codi ymwybyddiaeth o'r angen i roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â cham-drin pobl hŷn.
- Gwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ddatblygiad y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn y galwais amdano i sicrhau bod camau effeithiol yn cael eu cymryd ledled Cymru i amddiffyn pobl hŷn rhag cael eu cam-drin a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt.



# Galluogi pawb i heneiddio'n dda

Mae cymunedau oed-gyfeillgar yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o'n cefnogi i heneiddio'n dda, gan helpu i sicrhau ein bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i ni wrth i ni heneiddio a'n bod yn teimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi, ein cynnwys a'n parchu.

Gwelwyd cynnydd sylweddol tuag at wireddu Cymru oed-gyfeillgar, gyda'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru – Caerdydd – wedi llwyddo i wneud cais i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, gan gydnabod yr ymrwymiadau, y camau gweithredu a'r cynlluniau sydd ar waith i gyflawni mentrau oed-gyfeillgar, tra bod nifer o awdurdodau lleol eraill yn agosáu at gamau olaf y broses ymgeisio.

**Roedd y gwaith yn ystod 2022-23 yn cynnwys:**

- Cynnal Gweminar Oed-Gyfeillgar ym mis Mehefin 2022 a ddaeth â dros 100 o bobl hŷn a sefydliadau rhanddeiliaid o Gymru at ei gilydd, i rannu arferion da a darparu cyfleoedd i'r rheini sy'n bresennol wneud cysylltiadau newydd i gefnogi gweithio mewn partneriaeth.
- Darparu dros 40 o sesiynau un-i-un uniongyrchol i awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnig cyngor a chymorth ar ddatblygu eu cynlluniau a'u strategaethau heneiddio'n dda lleol, a'u ceisiadau i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd.
- Gweithio gydag Aelodau Cyswllt Rhwydwaith Byd-eang eraill Sefydliad Iechyd y Byd i lunio canllawiau ar gyfer rhaglenni cenedlaethol Oed-Gyfeillgar ac archwilio sut mae gwerthuso effaith mentrau oed-gyfeillgar yn effeithiol.
- Dod â phobl hŷn a phartneriaid lleol ynghyd â sefydliadau cenedlaethol allweddol – fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Trafnidiaeth Cymru a CLILC – i rannu gwybodaeth a manylion am ddatblygiadau polisi perthnasol yng nghyfarfodydd chwarterol Grŵp Partneriaeth Cymru Oed-Gyfeillgar.
- Dod â phartneriaid o Age Cymru, Cyngor Abertawe, Sadie's Butterflies a'r Rhwydwaith Trawsryweddol Unigryw at ei gilydd i gyd-gyflwyno gweithdy ar brofiadau pobl LHDTC+ o heneiddio i ddylanwadu ar ddatblygiad Dinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar yn yr Unol Daleithiau, mewn partneriaeth â'r AARP (yr American Association of Retired Persons gynt).
- Mynychu cynadleddau a digwyddiadau Oed-Gyfeillgar yng Ngwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn, a oedd yn darparu cyfleoedd i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am y math o wasanaethau a chymorth maen nhw eisiau eu gweld, a siarad â sefydliadau lleol i ddysgu mwy am yr arferion da sy'n cael eu darparu sy'n cael effaith gadarnhaol ac y gellid eu cyflwyno'n ehangach.
- Cyflwyno canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o waith Ymgysylltu Oed-Gyfeillgar gyda phobl hŷn gan awdurdodau lleol a phartneriaid mewn digwyddiadau rhwydwaith rhanbarthol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i ysbrydoli a chefnogi gweithredu lleol.
- Rhannu gwybodaeth a dysgu mewn digwyddiadau a chyfarfodydd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynhadledd flynyddol y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia, y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau, Grŵp Cynghori Chwaraeon Cymru ar gyfer Cynllun Hamdden Actif 60+, a Grŵp Cynghori Unigrwydd ac Arwahanrwydd Llywodraeth Cymru.

# Cefnogi pobl hŷn drwy'r argyfwng costau byw

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig a'r heriau enfawr roedd hyn yn eu creu, roedd llawer o bobl hŷn yn wynebu argyfwng arall wrth iddyn nhw wynebu costau byw cynyddol a chael eu gorfodi i dorri'n ôl ar hanfodion mewn ymdrech i gael dau ben llinyn ynghyd, sy'n rhoi iechyd pobl mewn perygl sylweddol.

Felly, ochr yn ochr â gweithredu yn erbyn fy mhedair blaenoriaeth, canolbwyntiais hefyd ar y ffyrdd y gallwn gefnogi pobl hŷn yn ystod yr argyfwng costau byw.

Roeddwn i eisiau sicrhau bod pobl hŷn yn cael yr holl wybodaeth roedd arnyn nhw ei hangen am y cymorth ariannol sydd ar gael, a bod pobl yn hawlio'r hyn y maen nhw'n gymwys i'w gael a'r hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo, yn enwedig Credyd Pensiwn, sy'n cael ei dan-hawlio'n sylweddol yng Nghymru – amcangyfrifir bod pobl hŷn wedi colli allan ar tua £200m y llynedd.

**Roedd y gwaith yn ystod 2022-23 yn cynnwys:**

- Datblygu canllaw ymarferol i bobl hŷn i ddarparu gwybodaeth am gymorth ariannol a hawliau sydd ar gael i gynnig cymorth gyda biliau ynni a chostau eraill. Cynhyrchwyd copi caled o'r canllaw ac fe'i dosbarthwyd i dros 1,500 o bobl hŷn a rhanddeiliaid. Ochr yn ochr â hyn, fe wnes i ddatblygu adran Cwestiynau Cyffredin costau byw ar fy ngwefan, a oedd yn cael ei hyrwyddo drwy fy sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Galw am ragor o gymorth ariannol i bobl hŷn, yn enwedig y rheini a allai fod yn agored i niwed, gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Estyn allan at bobl hŷn drwy'r cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion mewn papurau newyddion (i gyrraedd pobl hŷn nad ydynt ar-lein) i'w hannog i wirio a ydynt yn gymwys i gael Credyd Pensiwn a/neu wneud cais.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ymhelaethu ar negeseuon allweddol am bobl hŷn sy'n hawlio'r cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo, a gwybodaeth am Gredyd Pensiwn a sut mae hawlio.
- Galw ar bobl a sefydliadau i wneud Addewid Credyd Pensiwn, er mwyn tynnu sylw at y camau y byddan nhw'n eu cymryd – dim ots pa mor fawr neu fach – i helpu i sicrhau nad yw pobl hŷn yn colli allan ar Gredyd Pensiwn. Cafwyd addewidion gan wleidyddion allweddol – gan gynnwys y Prif Weinidog, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol – yn ogystal â rhanddeiliaid sy'n gweithio ar draws amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
- Cynnal Uwchgynhadledd Credyd Pensiwn i ddod â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ynghyd i archwilio'r ffyrdd o estyn allan ac ymgysylltu â phobl hŷn yn fwy effeithiol er mwyn eu hannog a'u cefnogi i hawlio'r Credyd Pensiwn y mae ganddynt hawl iddo. Mynychodd dros 70 o gynrychiolwyr yr Uwchgynhadledd, ac roedd yn cynnwys cyfraniadau gan ddau unigolyn hŷn a rannodd eu profiadau o hawlio Credyd Pensiwn a'u safbwyntiau ar y ffordd orau o gefnogi pobl hŷn. Roedd y siaradwyr eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru, Age Cymru a Chyngor RhCT, a siaradodd am y gwahanol ffyrdd yr oeddent yn targedu ac yn cefnogi pobl hŷn, yn lleol ac yn genedlaethol.
- Cyhoeddi adroddiad sy'n cofnodi negeseuon allweddol o'r Uwchgynhadledd ac sy'n darparu syniadau ymarferol sy'n ymwneud ag iaith a chyfathrebu, a'r mathau o gymorth sydd fwyaf defnyddiol i bobl hŷn. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys defnyddio data yn fwy effeithiol i nodi pobl hŷn a allai fod ar eu colled, a chynnal ymgyrchoedd pellach i godi ymwybyddiaeth o Gredyd Pensiwn ac annog pobl i hawlio.

# Darparu Cyngor a Chymorth i bobl hŷn

Yn ystod 2022-23, darparodd fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth help a chefnogaeth i 568 o bobl hŷn a'u teuluoedd, gan helpu i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal, darparu gwybodaeth hollbwysig am amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn, a chysylltu pobl â chymorth a gwasanaethau ledled Cymru. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o tua 40% yn nifer yr ymholiadau, o'i gymharu â 2021-22, lle'r oedd y ffigur hwn yn 408.

> **"Mae'n dda cael rhywun ar ochr pobl hŷn."**

Roedd cyfran sylweddol o'r ymholiadau a dderbyniwyd gan y tîm yn ymwneud â gofal cymdeithasol (23%) ac iechyd (21%), ac yna materion yn ymwneud â thai (16%) a chyllid. Roedd y tîm hefyd wedi darparu cyngor a chymorth ar faterion eraill, gan gynnwys oedraniaeth, cam-drin, gwasanaethau cymunedol a thrafnidiaeth.

> **"Dim ond ar ddau achlysur yr wyf wedi cysylltu â'r sefydliad ynghylch pryderon meddygol yn ystod y 6/7 mlynedd diwethaf, ond roedd yr ymateb a'r cyngor a gefais yn HYNOD ddefnyddiol – rydw i mor falch gyda'r gwasanaeth rwy'n cynghori unrhyw un yn fy ngrŵp oedran i gysylltu â'ch sefydliad am gyngor/cymorth."**

Isod ceir crynodeb o'r prif faterion y cysylltwyd â mi yn eu cylch yn ystod y flwyddyn:

- Sut i gyrchu gofal cymdeithasol a chael asesiad o anghenion (Asesiad Gofal a Chymorth).
- Sut mae anghenion gofal cymdeithasol yn cael eu trefnu pan fydd unigolyn yn cael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Pryderon ynghylch y gallu i gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ac iechyd – anhawster gwybod â phwy i gysylltu, sut i fynd ar drywydd atgyfeiriadau/diweddariadau, ansicrwydd o ran ble i roi gwybod am bryderon.
- Hyd yr amseroedd aros ar gyfer Asesiad Gofal a Chymorth a hefyd ar gyfer darpariaeth gofal cartref ar ôl cynnal asesiad.
- Cwynion am ansawdd gofal cymdeithasol a gofal iechyd a dderbyniwyd gyda phobl yn gofyn am gyngor ar sut i gwyno.
- Pryderon ynghylch amseroedd aros ar gyfer ambiwlansys a hefyd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.
- Oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty oherwydd diffyg gofal cartref.
- Ymholiadau ariannol, gan gynnwys talu am ofal cymdeithasol ond hefyd mynediad at bensiynau, budd-daliadau a chymorth ariannol arall sy'n gysylltiedig â chostau byw cynyddol.
- Ymholiadau sy'n ymwneud â phobl yn cael trafferth ariannu gwaith hanfodol ar eu cartrefi (boeler neu doiled newydd) ac eisiau cael gafael ar arian cyhoeddus i wella effeithiolrwydd eu cartrefi i leihau costau (hynny yw, cynhesrwydd eu cartrefi drwy wydr dwbl, paneli solar, adnewyddu/trwsio boeler).
- Ymholwyr sy'n chwilio am gymorth ynghylch allgau digidol yn eu bywydau bob dydd, fel cael eu siopa a'r anawsterau y gallant eu hwynebu mewn siopau gyda mwy o hunan-sganio a thaliadau digidol yn cael eu defnyddio.

> **"Bydd [y cyngor a ddarperir] yn fy helpu i yn ogystal â phobl eraill sy'n gofyn i mi am help."**

Mae'r profiadau sy'n cael eu rhannu gan bobl hŷn a'u teuluoedd, a gasglwyd gan fy Nhîm Cyngor a Chymorth, yn darparu mewnwelediadau hollbwysig ar yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn a'r effaith y mae polisi ac ymarfer ledled Cymru yn ei chael ar eu bywydau. Mae hyn wedi fy ngalluogi i nodi materion allweddol ac enghreifftiau lle nad yw hawliau pobl wedi cael eu cynnal ac mae'n darparu tystiolaeth bwysig i gefnogi fy ngalwadau am weithredu gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy fy nhîm Cyngor a Chymorth hefyd yn helpu i lywio a siapio fy ngwaith, fy mlaenoriaethau a fy nghynlluniau fel Comisiynydd.

> **"...mae'n dda gwybod bod cymorth ar gael i bobl hŷn ar adegau fel hyn."**

> **"Bob amser yn wybodus ac yn barod i helpu. Diolch yn fawr."**

> **"Gofal cwsmeriaid rhagorol – cefais gymorth prydlon gan rywun a helpodd fi gyda fy mhryder."**

> **"Cynorthwyol iawn, caredig a llawn dealltwriaeth. Yn barod i wrando."**

# Estyn allan at bobl hŷn ac ymgysylltu â nhw

Trwy gydol 2022-23, fe wnes i barhau i ymgysylltu'n rheolaidd â phobl hŷn i glywed yn uniongyrchol am eu profiadau o fynd yn hŷn a'u safbwyntiau ar sut i fynd i'r afael â'r materion a'r heriau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Fe wnaeth fy nhîm a minnau gwrdd a siarad â phobl hŷn ledled Cymru, drwy gymysgedd o sesiynau ar-lein a chyfarfodydd wyneb yn wyneb, a oedd yn cynnwys ymweliadau â gwasanaeth sy'n darparu cymorth i bobl hŷn sydd wedi goroesi camdriniaeth yng ngorllewin Cymru, digwyddiadau oed-gyfeillgar mawr yn Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin (fel y nodwyd uchod), canolfan ddydd Gymraeg yn Llanelwy a grŵp cymdeithasol sy'n rhedeg rhandir ym Merthyr.

Rwyf hefyd wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd â Chadeiryddion grwpiau pobl hŷn allweddol – Cymru Bywiog, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol, Senedd Pobl Hŷn Cymru a Fforwm Pensiynwyr Cymru – i glywed ganddynt am brofiadau eu haelodau a rhannu gwybodaeth a diweddariadau allweddol.

Ochr yn ochr hynny, rydw i wedi defnyddio fy sianeli cyfryngau cymdeithasol – Facebook yn benodol, sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl hŷn – i estyn allan at bobl hŷn a gofyn iddynt rannu eu profiadau ac i ddarparu gwybodaeth am fy ngwaith a'r prif faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Er mwyn estyn allan at bobl hŷn nad ydynt ar-lein, gweithiais gyda rhanddeiliaid ledled Cymru i ddosbarthu adnoddau fel posteri a chylchlythyrau, yn ogystal â defnyddio hysbysebion mewn cyfryngau lleol, i rannu gwybodaeth allweddol a thynnu sylw at gyhoeddiadau defnyddiol.

Mae'r ymgysylltu hwn nid yn unig yn helpu i arwain fy ngwaith fel Comisiynydd, ond mae hefyd yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a bod gwneuthurwyr polisïau a phenderfyniadau yn gweithredu arnynt, gan gefnogi fy ngwaith i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion ledled Cymru.

# Ymgysylltu â Sefydliadau sy'n Rhanddeiliaid

Drwy gydol 2022-23, fe wnaeth fy nhîm a minnau barhau i ymgysylltu â sefydliadau ledled Cymru, ac yn ehangach, er mwyn rhannu gwybodaeth, lledaenu negeseuon allweddol, a chasglu tystiolaeth a data am brofiadau pobl hŷn.

Roedd hyn yn cynnwys dod â sefydliadau allweddol at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau gweminar (fel y nodwyd uchod), aelodaeth o rwydweithiau a grwpiau cynghori, cwrdd ag unigolion i drafod materion penodol a chyflwyno areithiau ar bynciau allweddol – fel hawliau pobl hŷn a mynd i'r afael ag oedraniaeth – mewn digwyddiadau cynhadledd a gweminarau.

Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i mi lunio trafodaethau a dadleuon, sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a dylanwadu ar syniadau a phenderfyniadau, ar faterion allweddol sy'n ymwneud â fy mlaenoriaethau – ar lefel Cymru, y DU a rhyngwladol.

O ganlyniad i'r ymgysylltu parhaus hwn, mae llawer iawn o ddiddordeb a chefnogaeth wedi bod o hyd i rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac effaith gadarnhaol fy ngwaith, yn ogystal ag ymgyrchoedd ar gyfer rolau tebyg sydd i'w sefydlu yn Lloegr a'r Alban.

Rwyf hefyd wedi cynnal ac adeiladu ar bartneriaethau newydd a sefydlwyd yn ystod y pandemig i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig a strategol i fynd i'r afael â materion allweddol ac i ddarparu cyfleoedd i godi pryderon gyda llais cyfunol pwerus.

Yn ogystal â gwaith parhaus gyda'r Grwpiau Llywio a Gweithredu ar Atal Cam-drin a'r Grŵp Hawliau Cartref Gofal, rwyf wedi parhau i arwain Rhwydwaith y DU o sefydliadau pobl hŷn allweddol ledled y DU. Gan weithio mewn partneriaeth, mae'r grŵp wedi edrych ar faterion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn – fel hawliau a'r argyfwng costau byw – a'r camau y mae angen i lywodraethau eu cymryd i gefnogi pobl hŷn.

# Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd a Chyrff Cyhoeddus

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ac wedi gweithio'n adeiladol gyda nhw, ond nid wyf wedi oedi rhag mynegi pryderon yn gyhoeddus ac rwyf yn galw am welliannau lle rwyf wedi teimlo nad yw'r camau'n ddigonol i amddiffyn a chefnogi pobl hŷn.

Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd rheolaidd â'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi fy ngalluogi i godi materion sy'n peri pryder i bobl hŷn yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru a nodi'r camau gweithredu y mae pobl hŷn eu heisiau a'u hangen.

Yn ogystal, cefais gyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol i edrych ar ffyrdd y gall cyrff cyhoeddus weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag oedraniaeth a diogelu pobl hŷn rhag cael eu cam-drin.

Gan weithio gydag Aelodau'r Senedd yn ehangach, rhoddais dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliadau pwyllgor allweddol – gan ymdrin â materion sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru, trais ar sail rhywedd, oedi wrth drosglwyddo gofal, a gwasanaethau deintyddol – i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn cael eu deall yn well ac yn cael eu hadlewyrchu mewn argymhellion a galwadau am weithredu gan Bwyllgorau'r Senedd.

Ar ben hynny, rwyf wedi cwrdd ag Aelodau o bob plaid i rannu gwybodaeth a mewnwelediadau am brofiadau pobl o heneiddio, ac i drafod y polisïau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella bywydau pobl hŷn, ynghyd â darparu sesiynau briffio ysgrifenedig cyn dadleuon allweddol, er mwyn llywio a siapio'r drafodaeth a'r ddadl.

Ochr yn ochr â hyn, rydw i wedi cwrdd ac ymgysylltu'n rheolaidd â sefydliadau allweddol eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae hyn wedi fy ngalluogi i drafod y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, lleisio pryderon a gofyn am weithredu lle bo angen, yn ogystal â nodi cyfleoedd i gydweithio er budd pobl hŷn.

Mae aelodau o fy nhîm hefyd wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o fyrddau a rhwydweithiau cynghori i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u deall, a'u bod yn cael eu defnyddio i siapio polisïau ac arferion, ynghyd ag ymateb i ymgynghoriadau allweddol sy'n rhoi sylw i ystod o faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn.

Ar ben hynny, ar ôl sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau ddiwedd 2020, rwyf wedi parhau i weithio gydag Aelodau'r Senedd, ymchwilwyr academaidd allweddol, ymarferwyr sydd â phrofiad o redeg prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chynrychiolwyr pobl hŷn ac iau, i gefnogi camau gweithredu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng cenedlaethau a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau pontio'r cenedlaethau.

Mae'r grŵp yn gweithio i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar draws pedwar maes blaenoriaeth: mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd; cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes; mynd i'r afael ag oedraniaeth; a sgiliau a'r economi.



# Gweithio gyda'r cyfryngau

Rwyf wedi cynnal presenoldeb cryf yn y cyfryngau drwy gydol 2022-23, gan gyhoeddi datganiadau i'r wasg ar amrywiaeth eang o faterion, a gweithio gyda'r cyfryngau ledled Cymru a'r DU i godi pryderon, cynnig gwybodaeth a sylwadau, a nodi'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion a'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn.

Roedd fy ngwaith gyda'r cyfryngau yn cynnwys cyfweliadau â rhaglenni newyddion ar y radio a'r teledu, yn ogystal â sylw mewn papurau newyddion lleol a chenedlaethol, gyda chyfanswm o 82 o eitemau. Yn ogystal, mae nifer o gyhoeddiadau ledled y DU wedi cyfeirio at fy rôl a'i heffaith mewn erthyglau sy'n tynnu sylw at yr angen am Gomisiynwyr yn Lloegr a'r Alban.

Mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf eu bod yn gwerthfawrogi fy ngweld i'n bod yn hyrwyddwr brwd dros eu hawliau ac yn mynegi pryderon yn gyhoeddus am y materion sy'n effeithio arnyn nhw, ac mae nifer o bobl hŷn a'u teuluoedd hefyd wedi dweud wrth fy nhîm Cyngor a Chymorth eu bod wedi cysylltu â mi ar ôl fy ngweld yn cael fy nghyfweld.

Ochr yn ochr â hyn, ysgrifennais erthyglau a blogiau ar gyfer cyhoeddiadau a gwefannau rhanddeiliaid i lywio trafodaethau a dadleuon ar bynciau, gan gynnwys hawliau pobl hŷn, mynd i'r afael ag oedraniaeth, gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl.

# Edrych ymlaen

Yn ystod 2023-24, byddaf yn cymryd camau pellach yn erbyn fy mhedwar blaenoriaeth allweddol er mwyn gwarchod hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Byddaf yn bwrw ymlaen â rhaglen waith sylweddol, gyda chefnogaeth fy nhîm, sy'n adeiladu ar y cynnydd a wnaed mewn meysydd allweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ganolbwyntio hefyd ar faterion sy'n dod i'r amlwg ac ymateb i bryderon sy'n cael eu codi gan bobl hŷn.

**Bydd fy ngwaith yn ystod 2023-24 yn cynnwys:**

## Diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn

- Cryfhau hawliau pobl hŷn mewn cartrefi gofal drwy weithio gydag arbenigwyr a rhanddeiliaid ar draws y DU i ddeall a gwella polisïau, arferion a diwylliant.
- Nodi a chymryd camau pellach i sicrhau bod hawliau pobl hŷn nad ydynt ar-lein yn cael eu diogelu i gyrchu gwybodaeth a gwasanaethau drwy ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru i glywed yn uniongyrchol am y rhwystrau sy'n cael eu creu gan allgau digidol a'r effaith mae'r rhain yn ei chael ar fywydau pobl.
- Defnyddio canfyddiadau fy ngwaith ymchwil i wella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymateb i anghenion pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal â datblygu cysylltiadau pellach â'r cymunedau hyn, i gefnogi rhagor o waith ymchwil a galwadau am weithredu.
- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl hŷn o'u hawliau, gan gynnwys hawliau sy'n ymwneud â chartrefi gofal, mynediad at wasanaethau, a phenderfyniadau ynghylch Peidio â Cheisio CPR drwy gynhyrchu a hyrwyddo gwybodaeth ac arweiniad, yn ogystal â dysgu gan fy ngwasanaeth Cyngor a Chymorth.

## Rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed

- Archwilio'r ffyrdd y mae oedraniaeth yn rhyngweithio â materion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn, gan ddechrau gyda ffocws ar gam-drin pobl hŷn, a gweithio gydag arbenigwyr i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.
- Gweithio gyda'r cyfryngau, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill i wella'r iaith a'r delweddau a ddefnyddir wrth gyfathrebu am bobl hŷn a heneiddio, a meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o oedraniaeth a'i effaith.
- Cyfrannu at roi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran drwy weithio gyda sefydliadau allweddol yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Sicrhau nad yw datblygu a gweithredu polisïau a deddfwriaethau yn adlewyrchu nac yn arwain at oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran drwy graffu, dadansoddi a dylanwadu ar bolisïau.

## Atal cam-drin pobl hŷn

- Gwella'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sy'n cael eu cam-drin drwy ddylanwadu ar gynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth Cymru i atal cam-drin pobl hŷn a'i roi ar waith, gweithredu'r strategaeth newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), a gweithredu a chomisiynu gwasanaethau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.
- Galluogi pobl hŷn i ofyn am help os ydynt mewn perygl o gael eu cam-drin neu os ydynt yn cael eu cam-drin drwy wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth drwy ymgyrchoedd cyfathrebu a thrwy ddarparu gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru, sefydliadau allweddol a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
- Gwella dealltwriaeth ac ymateb y cyhoedd i gam-drin pobl hŷn drwy alluogi a chefnogi pobl hŷn i rannu eu profiadau ac ymgysylltu â grwpiau a rhwydweithiau cymunedol.
- Cyfrannu at welliannau mewn ymarfer drwy nodi, rhannu a hyrwyddo arferion da o ran cymorth a gwasanaethau i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sy'n cael eu cam-drin.

## Galluogi pawb i heneiddio'n dda

- Gwella gallu pobl hŷn i fynd allan a gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt, drwy hybu a chefnogi datblygiad cymunedau oed-gyfeillgar ledled Cymru, cefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid drwy rannu a hyrwyddo arferion da, tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dysgu a datblygu.
- Dylanwadu ar bolisi a strategaeth ar yr wyth maes o gymunedau oed-gyfeillgar, drwy gynnig ac ymateb i ddatblygiad polisïau a strategaethau a thrwy ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a gwleidyddion, i wella cyfleoedd i bobl hŷn heneiddio'n dda.
- Cryfhau mynediad pobl hŷn at gymorth gan y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol, drwy graffu a dylanwadu ar bolisïau a datblygu gwasanaethau a defnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth i nodi meysydd posibl i'w hadolygu'n ffurfiol.
- Darparu a gwella mynediad at gymorth ariannol i bobl hŷn drwy ddarparu tystiolaeth o angen a hyrwyddo cyfathrebu a gwasanaethau effeithiol.

Ochr yn ochr â'r gwaith a amlinellir uchod, byddaf yn parhau i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer yn ehangach drwy fy ngwaith gyda Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a sefydliadau allweddol eraill ledled Cymru, ynghyd â darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth.

Bydd fy nhîm a minnau hefyd yn teithio ledled Cymru i gwrdd ac i siarad â phobl hŷn a chlywed am y mathau o gamau gweithredu a chefnogaeth a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Fel arfer, bydd lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn llywio fy ngwaith, a byddaf yn sicrhau bod y rhain yn cael eu clywed a'u gweithredu gan lunwyr polisïau a phenderfyniadau.

Byddaf hefyd yn darparu tystiolaeth i Ymchwiliad Covid-19 y DU i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn a'u teuluoedd, a thystiolaeth am yr anawsterau roeddent yn eu hwynebu, yn cael eu cofnodi er mwyn gallu dysgu gwersi ystyrlon o'u profiadau.

Bydd bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod pobl hŷn, ledled Cymru, yn cael eu gwerthfawrogi, bod hawliau'n cael eu cynnal ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

# Adolygiad o gyllid a pherfformiad ariannol

## Cyllid

Rhwng 2008 a mis Mawrth 2022, roedd modd cadw cronfeydd wrth gefn a'u rheoli'n annibynnol. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi chwarae rhan bwysig yn fy null rheoli ariannol cyffredinol, ac roeddent yn rhan annatod o gynnal fy annibyniaeth wrth Lywodraeth Cymru a chyflawni fy Nghynllun Strategol yn llwyddiannus. Maent wedi fy ngalluogi i reoli risg yn effeithiol, sicrhau parhad busnes a'r gallu i gyflawni fy nyletswyddau statudol yn wyneb problemau na ragwelwyd, ac nad oedd modd eu rhagweld. Yn ogystal, roeddent yn rhoi mwy o hyblygrwydd i mi ar gyfer cyflawni fy rhaglen waith dros y blynyddoedd ariannol.

Yn ystod 2021-22, yn unol â chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y cyrff Comisiynwyr eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo fy swyddfa i gyllidebu adnoddau, sydd wedi cael gwared ar fy ngallu i reoli a defnyddio fy arian wrth gefn yn annibynnol. Mae hyn yn golygu na allaf reoli risgiau ariannol tymor canolig yn annibynnol mwyach a byddaf yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol yn ôl yr angen.

Yn y cronfeydd wrth gefn statudol ar ddiwedd y flwyddyn (Mawrth 2023), roedd £123,000 (£92,000: 31 Mawrth 2022).

## Perfformiad Ariannol 2022-23

Mae Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 2022-23 yn £1,538,000 (2021-22: £1,521,000).

Mae'r arbedion yn erbyn y gyllideb sylfaenol o £1,589,000 wedi codi'n bennaf oherwydd trosiant staff a'r anawsterau cenedlaethol sy'n deillio o hynny wrth recriwtio i swyddi gwag.

## Crynodeb o'r rhagolwg ariannol

Ym mis Rhagfyr 2022, croesewais gydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r pwysau cyllido difrifol a wynebais oherwydd pwysau chwyddiant diweddar a gofynion llywodraethu cynyddol gymhleth. Mewn ymateb i fy Amcangyfrif ar gyfer 2023-24, darparodd Llywodraeth Cymru gynnydd i'm cyllideb llinell sylfaen ar gyfer 2023-24 i £1,684,000 o £1,589,000. Mae'r cynnydd mewn cyllid wedi sicrhau nad oes rhaid i mi, yn y tymor byr, ystyried ailstrwythuro'r sefydliad a bod gennyf gyllideb ddigonol ar gyfer rhaglen waith 2023-24.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol i mi ar gyfer 2023-24, rwy'n dal i ragweld diffyg cyllidebol bach o £12,000. Wrth i'r flwyddyn ariannol nesaf fynd rhagddi, drwy reolaeth ariannol effeithiol, rhagwelaf y byddaf yn gallu nodi meysydd gwariant lle byddaf yn gwneud arbedion yn erbyn y gyllideb a ragwelwyd er mwyn sicrhau nad wyf yn torri cyfanswm rheoli'r gyllideb adnoddau.

Mae'n amlwg, os bydd chwyddiant yn parhau i gael yr un effaith yn 2023-24 ag y mae wedi'i chael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nad oes digon o hyblygrwydd yn fy nghyllideb a fydd yn caniatáu i mi ymdopi â phwysau sylweddol o ran costau yn y dyfodol.

**Dolen i'r wefan:** Amcangyfrif y Comisiynydd

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
26 Medi 2023

# Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Ym mis Ionawr 2022, drwy ymgynghori'n helaeth â staff, cyflwynais bolisi gweithio hybrid a roddodd gyfle i'm staff weithio'n fwy hyblyg a chael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan wneud y gorau o arbedion effeithlonrwydd ac allbynnau. Mae cyflwyno'r polisi hwn yn galluogi staff i barhau i wneud penderfyniadau am eu hamgylchedd gwaith ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar ôl-troed carbon y sefydliad.

Mae gweithio o bell wedi arwain at fanteision amgylcheddol cadarnhaol clir, sy'n cynnwys llai o deithio gan fod cyfarfodydd hybrid a gweithio di-bapur wedi dod yn arferion cyffredin. Gan fod staff yn cael eu cefnogi i weithio o bell, mae'r gofod swyddfa sydd ei angen i ddiwallu anghenion y sefydliad wedi lleihau'n sylweddol. Yn ystod 2022/23 fe wnes i leihau fy ngofod swyddfa o dros 75%, o 4,640 troedfedd sgwâr i 976 troedfedd sgwâr, a fydd yn arwain at arbed costau sylweddol.

Fel tenantiaid, ychydig iawn o ddylanwad sydd gennym dros y cyflenwad a'r ddarpariaeth dŵr neu nwy. Trydan yw'r unig gyflenwad ynni y gallaf ei reoli ac, ers 2020, rwyf wedi defnyddio tariff ynni 100% gwyrdd. Yn ystod 2022, fe wnes i newid i weinydd cwmwl ac, er bod mwy o staff yn defnyddio'r swyddfa yn 2022-23, o'i gymharu â 2021-22, gostyngodd y defnydd o drydan 10%. Bydd fy swyddfa newydd yn parhau i gynnwys goleuadau LED sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a falfiau sy'n cael eu rheoli â thermostat ar bob gwresogydd.

I gydnabod gwelliant parhaus ein perfformiad cynaliadwyedd, rwy'n falch bod fy sefydliad wedi cadw Gwobr Iechyd y Gweithle Bach (lefel Aur).

Dyma rai enghreifftiau o'n harferion cynaliadwyedd:

- Mae gennyf 'Dîm Gwyrdd', sef gweithgor mewnol sy'n mynd ati i rannu a hyrwyddo syniadau gyda chydweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth yn y cartref ac yn y gweithle, gan gynnwys hyrwyddo pwyntiau 'TerraCycle'.
- Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer ailgylchu deunyddiau. Mae'r biniau wedi cael eu symud oddi wrth y desgiau er mwyn annog staff i ailgylchu cymaint â phosibl, ac mae mannau ailgylchu o gwmpas y swyddfa hefyd.
- Mae arferion caffael y sefydliad yn gynaliadwy, ac yn ystyried ffactorau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol, ochr yn ochr â ffactorau ariannol ac ansoddol wrth ddatblygu meini prawf dyfarnu a gwerthuso dyfynbrisiau a thendrau.
- Mae'r sefydliad yn defnyddio cynnyrch papur a glanhau sy'n ystyriol o'r amgylcheddol, ac anogir cyflenwyr i ddefnyddio cynhyrchion amgylcheddol gyfeillgar.
- Rwyf wedi ymroi i gynnal sesiynau hyfforddiant addysgol i aelodau staff am faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd sydd wedi'i gynnwys yn fy Mholisi Cynaliadwyedd yn nodi'r camau sydd wedi cael eu cymryd yn ystod 2022-23 ac, ar y cyd â thystiolaeth o 2021-22 a 2023-24, bydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu arferion gwaith cynaliadwy ymhellach. Bydd y blynyddoedd hyn yn rhoi llinell sylfaen i ni ar gyfer gweithgarwch a thystiolaeth, fel y bydd modd i ni gyflwyno cynllun gweithredu cyfredol gyda thargedau clir i leihau ôl-troed carbon y sefydliad erbyn 2030.

**Dolen i'r wefan:** Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a'r Strategaeth Cynaliadwyedd

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
26 Medi 2023



# Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad.

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Fy adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys manylion ynghylch sut rwy'n dangos cydymffurfiaeth a gwaith llywodraethu corfforaethol cadarn.
- Mae fy Adroddiad ar Staff a Thaliadau yn darparu gwybodaeth am daliadau uwch reolwyr, fy natgeliad cyflog teg a gwybodaeth am faterion eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth.
- Mae Adroddiad yr Archwiliad yn cynnwys barn derfynol ein harchwilydd am y datganiadau ariannol.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu, gan gynnwys fy Nhîm Rheoli Busnes a'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, i'w gweld yn fy Natganiad Llywodraethu ar dudalennau 41 i 47. Mae'r wybodaeth hon ar fy ngwefan hefyd.

**Dolen i'r wefan:** Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

# Adrodd Corfforaethol

## Codi pryderon

Ym mis Tachwedd 2016, daeth rôl y Comisiynydd yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y Ddeddf) ar gyfer materion yn ymwneud â hawliau a lles pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn gweithwyr sy'n chwythu'r chwiban, ar yr amod bod y gweithiwr sy'n cyflwyno'r datgeliad yn credu'n rhesymol ei fod yn berthnasol i gylch gwaith y Comisiynydd a bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu ac unrhyw honiadau a geir ynddi yn wir gan fwyaf.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'm swyddfa ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law, gan mai dim ond datgeliadau sy'n dod o fewn cwmpas fy swyddogaethau statudol ac o fewn paramedrau fy mhwerau statudol y mae modd i mi ymchwilio iddynt.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu cyfeirio ataf o ganlyniad i fy rôl fel 'person rhagnodedig' yn ystod 2022-23 (2021-22: dim).

## Yr Iaith Gymraeg

Ers 25 Ionawr 2017, rwyf wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i mi ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a hwyluso a hybu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle.

Yn ystod 2022-23, rwyf wedi cydymffurfio â'r holl Safonau ac wedi parhau i ddangos fy ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Yn ystod 2022-23, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o dan gydymffurfio â pholisi cwynion Safonau'r Gymraeg (2021-22: dim).

**Dolen i'r wefan:** Safonau'r Gymraeg

## Cynllun cydraddoldeb strategol

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awdurdod rhestredig o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r swyddfa ddilyn yr hyn a elwir yn 'ddyletswyddau cyffredinol' i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae fy staff a minnau wedi ymrwymo i'r Ddeddf Cydraddoldeb ac yn ei chefnogi'n llawn ac yn ymdrechu i ymgorffori'r Ddeddf ym mhopeth a wnawn. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i mi ddarparu Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cynnwys Amcanion Cydraddoldeb, yr wyf yn adrodd ar gyflawni yn eu herbyn mewn cylchoedd pedair blynedd.

Drwy ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru, datblygais Amcanion Cydraddoldeb fy sefydliad. Er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o holl weithgarwch y sefydliad, mae fy Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-24 yn adlewyrchu gweledigaeth a

gwerthoedd y sefydliad yn agos, ac yn cyd-fynd yn agos â'r Strategaeth.

Byddaf yn cyhoeddi adroddiad cynnydd 2022-23 yn erbyn yr amcanion hyn erbyn 30 Medi 2023.

**Dolen i'r wefan:** Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau.

## Polisi Taliadau

Rwy'n gwneud fy ngorau i gydymffurfio â Chod Talu'n Well Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Y targed yw gwneud taliadau yn unol â thelerau talu penodol, neu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfonebau nad oes anghytuno yn eu cylch ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad taliadau'r flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 98.21% o daliadau prydlon (99.06% yn 2021-22). Ni thalwyd llog oherwydd taliadau hwyr.

## Llywodraethu Gwybodaeth

I gydnabod pwysigrwydd hanfodol rheoli risgiau diogelwch sy'n ymwneud â rheoli data, rwyf wedi dechrau gweithio tuag at ennill achrediad Lefel Dau IASME, a fydd yn cefnogi'r achrediad Cyber Essentials Plus sydd gan fy sefydliad eisoes.

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn, ac yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys data personol a gedwir sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran unigolion hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Yn 2021-22, bu un digwyddiad diogelwch data, nad oedd angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano. Hyd yn hyn, ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau yn ystod 2022-23.

Yn ystod 2022-23, derbyniais dri chais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (2021-22: 3). Ymatebwyd i bob cais o fewn yr amserlenni penodol.

Ni chefais unrhyw Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun (2021-22: 0).

## Cofrestri

Byddaf yn cyhoeddi manylion am fy nhreuliau fy hun – y rhai uniongyrchol a'r rhai a geir ar fy rhan – ar fy ngwefan bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn edrych yn ofalus ar fy nhreuliau ym mhob cyfarfod.

**Dolen i'r wefan:** Treuliau'r Comisiynydd

Rwy'n cadw cofrestr o'r holl roddion a'r lletygarwch sydd wedi'u derbyn a'u gwrthod, yn rhinwedd fy nyletswyddau swyddogol. Caiff y gofrestr hon ei diweddaru bob chwarter a'i chyhoeddi ar fy ngwefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r gofrestr hon ym mhob cyfarfod.

**Dolen i'r wefan:** Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Fel rhan o'u telerau penodi, mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fabwysiadu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan. Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â'm diwylliant a'm gwerthoedd corfforaethol, yn rhoi sail i'm Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i weithwyr cyflogedig ac aelodau'r Pwyllgor ddilyn y Cod hwn a'i gadw'n gyfredol.

Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi bod holl weithwyr cyflogedig ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cymryd camau i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau, drwy gofrestru a datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau personol a gwaith y Comisiynydd wrth iddynt godi.

Mae cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Cyfarwyddwyr ac aelodau Pwyllgor ar gael ar fy ngwefan.

**Dolen i'r wefan:** Cofrestr Buddiannau

## Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod 2022-23, nid oeddwn i nac unrhyw aelod arall o'm Tîm Rheoli Busnes na'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, nac unrhyw aelod o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r taliadau cyflog a'r hawliadau arferol am dreuliau.

## Trefniadau archwilio

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn unol â pharagraff 12, Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Cost archwilio cyfrifon 2022-23 yw £16,000 (£14,000: 2021-22). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2022-23 (£dim: 2021-22).

Yn ystod 2020-21, ymgymerais â thendr ar y cyd ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Dyfarnwyd contract tair blynedd i TIAA Ltd, a oedd yn dechrau ym mis Ebrill 2021, gydag opsiwn i ymestyn y contract hwnnw am ddwy flynedd arall.

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau o bwys rhwng diwedd y flwyddyn ac adeg cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

## Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n ymwybodol nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
26 Medi 2023

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon gan Drysorlys Ei Fawrhydi a Gweinidogion Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Paratoir y cyfrifon er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, y llifoedd arian a'r newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny. Mae'r adroddiad blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir hwy yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw; a
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu bod y rhain yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a dros asedau'r Comisiynydd, fel y'u nodir yn y memorandwm - 'Rheoli Arian Cyhoeddus' - a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth hon. Cyn belled ag y gwn, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



# Datganiad Llywodraethu

## Cyfrifoldebau

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi sail dyletswyddau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sut caiff fy ffordd o gyflawni fy nyletswyddau ei llywodraethu a'i rheoli, a sut rwyf i, fel Comisiynydd, yn atebol am yr hyn a wnaf.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol o dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fel Corfforaeth Unigol a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad ond gallaf ddirprwyo'r gwaith o arfer fy swyddogaethau i unrhyw aelod o staff. Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel y gallai fod gan gyrff cyhoeddus eraill, mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (Pwyllgor) i'm cynorthwyo sydd yn rhoi sicrwydd ynghylch sut caiff y sefydliad ei Lywodraethu, gan gynnwys priodoldeb a chysondeb wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf 2006, yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gallu craffu ar y cyfrifon a pha mor effeithlon ac effeithiol ydwyf o ran defnyddio'r adnoddau a ddarperir imi ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau statudol.

Yn ystod mis Ionawr 2023, rhoddais dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar gyllido Comisiynwyr yng Nghymru. Nid yw canlyniad yr adolygiad hwn yn hysbys eto.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae llywodraethu corfforaethol da yn hanfodol mewn unrhyw sefydliad sy'n cael ei reoli'n dda. Mae'r fframwaith llywodraethu rwy'n ei ddilyn yn seiliedig ar systemau, polisïau a phrosesau allweddol y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt.

Mae systemau rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i:

- sicrhau cywirdeb a rheoleidd-dra ariannol;
- sicrhau fy mod yn cydymffurfio â'm dyletswyddau statudol; a
- sicrhau fy mod yn rhagweithiol o ran nodi a gwerthuso risg a fy mod yn rheoli risg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r rheolaethau hyn wedi eu cynllunio i reoli'r risgiau sy'n wynebu'r Comisiynydd yn y lefelau goddefgarwch risg a nodwyd yn y strategaeth Rheoli Risg.

Mae'r systemau rheolaeth fewnol hyn yn gweithio mewn modd integredig, gan adlewyrchu pwysigrwydd dull gweithredu integredig o lywodraethu a rheoli. Dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall y rhain ei ddarparu.

## Fframwaith llywodraethu

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n rhaid i mi enwebu Dirprwy a all gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd os yw'r swydd yn wag, neu os na fyddaf i yn gallu gweithredu unrhyw dro am unrhyw reswm. Kelly Davies, y Prif Swyddog Gweithredu, yw fy Nirprwy enwebedig.

Roedd fy fframwaith llywodraethu yn 2022/23 yn cynnwys tair prif elfen o sicrwydd, sef:

- Tîm Rheoli Busnes
- Rhaglen archwilio fewnol
- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae'r tair ffynhonnell hyn o sicrwydd yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion sy'n berthnasol i Gorfforaeth Undyn o fewn Cod Llywodraethau Corfforaethol y Deyrnas Unedig a'r Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, hynny yw, yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg annibynnol i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu, i fonitro ac adolygu pa mor gynhwysfawr ac effeithiol yw fy fframwaith llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys archwilio a rheolaeth ariannol, a threfniadau ar gyfer rheolaeth fewnol, gan gynnwys systemau canfod a rheoli risg. Darperir sicrwydd ychwanegol gan archwilwyr mewnol (TIAA) ac archwilwyr allanol (Archwilio Cymru).

Mae fy Nhîm Rheoli Busnes a minnau'n rhoi gwybodaeth berthnasol, amserol a chywir i'r Pwyllgor.

### Aelodaeth

Rwy'n penodi aelodau'r Pwyllgor am dymor cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am hyd at bedair blynedd. Yn 2022/23, roedd y Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod oedd â phrofiad sylweddol mewn sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae aelodau'r pwyllgor i gyd yn annibynnol ac felly nid ydynt yn darparu gwaith i mi mewn unrhyw swyddogaeth weithredol.

Yn ystod y flwyddyn, dyma oedd aelodaeth a hyd y cyfnod a wasanaethwyd:

- **Claire Bevan –** dechreuodd ei chyfnod ym mis Ebrill 2020. Penodwyd yn Gadeirydd ym mis Ebrill 2022.
- **Julia Evans –** dechreuodd ei chyfnod ym mis Ionawr 2019.
- **David Powell –** dechreuodd ei dymor ym mis Ebrill 2020.
- **Chris Knight –** dechreuodd ei dymor ym mis Ebrill 2022.

Mae gofyn i mi adolygu a chylchdroi amrywiaeth, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad cronnus aelodau fy Mhwyllgor yn rheolaidd, yn unol ag arferion da. Drwy adolygu cymysgedd sgiliau aelodau presennol y pwyllgor, rwyf wedi nodi y byddaf yn ceisio recriwtio aelod ychwanegol o'r Pwyllgor yn ystod 2023/24, sydd â gwybodaeth helaeth am seiberddiogelwch a diogelwch data. Byddant yn craffu ymhellach ar y gwaith o ddatblygu a chyflawni Strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg fy sefydliad yn ystod 2023/24 ac ymlaen.

### Ymrwymiad y pwyllgor

Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu dull hybrid ar gyfer cyfarfodydd ac mae papurau'n cael eu dosbarthu'n electronig.

Crynhoir presenoldeb yn y cyfarfodydd isod:

| | Ebrill 2022 | Gorff. 2022 | Hydref 2022 | Ionawr 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Claire Bevan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Julia Evans | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Chris Knight | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| David Powell | X | X | ✓ | ✓ |

Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn anffurfiol yn ystod 2022/23. Mae'r cyfarfodydd anffurfiol yn gyfle i mi ddefnyddio mwy ar arbenigedd amrywiol y Pwyllgorau yn ystod trafodaethau manwl ar feysydd gweithredol a strategol penodol a oedd yn cynnwys lefel uchel o risg. Roedd y cyfarfodydd hefyd wedi rhoi'r cyd-destun a'r wybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor i fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Mae aelodau'r Pwyllgor yn cael eu diweddaru mewn amser real, drwy e-bost, am unrhyw faterion sy'n codi.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor gyfle hefyd i fynd i weithdy ar gydraddoldeb, a chafodd y Pwyllgor hefyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol am y Pecyn Cymorth Seiberddiogelwch ar gyfer Byrddau.

### Ffocws y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn Cylch Gorchwyl ffurfiol, sy'n seiliedig ar ganllawiau ar arferion gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys.

Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, cyflwynwyd adroddiadau chwarterol i'r Aelodau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor ar Risg Strategol, Iechyd Sefydliadol, Llywodraethu, Cyfathrebu, Cyllid a Seiberddiogelwch, a Cherdyn Sgorio Cytbwys. Mae hyn yn rhoi trosolwg o'r holl ddata llywodraethu allweddol.

Ym mhob cyfarfod, darperir trosolwg i'r Pwyllgor o'm Treuliau a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch, ac ni chodwyd dim pryderon yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Pwyllgor roi sylwadau a chyngor ar y polisïau allweddol canlynol:

- Gwrth-dwyll a Gwyngalchu Arian
- Gweithdrefn Gwyno
- Teithio a Chynhaliaeth
- Rhoddion a Lletygarwch
- Strategaeth Rheoli Risgiau

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi asesu effeithiolrwydd Archwilio Mewnol ac Allanol, wedi cael sicrwydd gan yr Archwilwyr Mewnol ar systemau llywodraethu allweddol y Comisiynydd, wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar raglen waith y Comisiynydd, ac wedi adolygu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ac adroddiad ISA260.

Yn ogystal â'r gwaith a nodwyd uchod, darparodd y Pwyllgor gyngor ar dri maes risg strategol sefydliadol:

- Roeddent wedi craffu ar fy nghais i gyflwyno cyllideb 2023/24, a oedd yn dangos y pwysau cost sylweddol a pharhaus yr oedd yn wynebu'r sefydliad ac yn dangos yr angen am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 ac ymlaen.
- Buont yn ystyried fy achos busnes a'r arfarniad opsiynau cysylltiedig a oedd yn amlinellu'r rhesymau pam y dylwn symud swydd, gan sicrhau bod y prosiect yn darparu Gwerth am Arian i bwrs y wlad. O ganlyniad, fe wnaeth y Pwyllgor fy nghefnogi ar y symudiad hwn.

- Roedden nhw wedi adolygu fy nhystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru, sy'n adolygu cyllid y Comisiynwyr.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i sicrhau bod fy nhrefniadau llywodraethu yn fwy tryloyw.

## Adolygiad y Pwyllgor o effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor wedi nodi yn ei Adroddiad Blynyddol, o ganlyniad i'r cyfarfod sydd gan y Pwyllgor gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol a lefel sicrwydd yr adroddiadau a gafwyd gan yr archwilwyr, y gall roi sicrwydd i mi nad oes gan yr un tîm archwilio unrhyw bryder ynghylch ansawdd yr wybodaeth a ddarperir. Nododd y Pwyllgor hefyd eu bod yn fodlon â'm lefel gyffredinol o reolaeth ariannol, a'r llywodraethiant corfforaethol ehangach a dull adnabod o brosesau risg a rheoli.

O ganlyniad i'w waith yn 2022/23, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel gyffredinol y sylw y mae materion yn ei gael yn yr archwiliad mewnol ac allanol.

Ar gyfer 2022/23, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu lefel sylweddol o sicrwydd i mi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn parhau i fod yn briodol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Arfarniad pa mor effeithiol yw'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn arfarnu ei effeithiolrwydd a'i weithrediadau ei hun bob blwyddyn a chwblhawyd adolygiadau blynyddol gan y Cadeirydd gydag aelodau eraill y Pwyllgor. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, bu'r Cadeirydd a minnau yn trafod ei pherfformiad hi a pherfformiad y Pwyllgor. Yn sgil y trafodaethau hyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan nodi bod y Cadeirydd a minnau'n gallu cadarnhau ymrwymiad yr aelodau ac yn gallu rhoi sicrwydd fod y Pwyllgor yn effeithiol.

Yn fy marn i, mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at y systemau rheoli mewnol a fy mlaenoriaethau strategol ehangach.

## Archwilio mewnol

Rôl archwiliad mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ran rheoli risg, rheolaethau a llywodraethu. Mae'r sicrwydd mae'r archwiliad mewnol yn ei roi yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac yn un o'r ffynonellau sicrwydd allweddol sy'n ofynnol gennyf i a fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae'r Proffil Risg Strategol yn sail i ffocws gwaith yr archwiliad mewnol ac yn darparu'r dystiolaeth mae'r datganiad sicrwydd blynyddol ar reolaeth fewnol yn seiliedig arni.

Yn ystod 2022/23, defnyddiodd y TIAA 18 diwrnod ar raglen o archwiliadau mewnol, a daeth yr adroddiad blynyddol i'r casgliad bod "TIAA yn fodlon bod gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru systemau cyllid, prosesau rheoli, llywodraethu a rheoli risg rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn."

Ategwyd y farn archwilio hon gan yr adolygiadau sicrwydd a chynghori a gynhaliwyd yn ystod 2022/23:

| Ardal a Archwiliwyd | Sicrwydd a Roddwyd | Pwyntiau Gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Brys | Pwysig | Arferol |
| Llywodraethu:<br>• Fframwaith Rheoli Risg | Sylweddol | 0 | 0 | 0 |
| Systemau Ariannol:<br>• Rheoli Cyllideb<br>• Prynu a Thalu | Sylweddol<br>Sylweddol | 0<br>0 | 0<br>0 | 0<br>0 |
| TGCh – Fframwaith Technoleg Gwybodaeth | Cynghorol | 0 | 1 | 0 |
| Adolygiad o Weithdrefn Archebu Nwyddau a Gwasanaethau | Adolygiad ymgynghorol o'r polisi | 0 | 0 | 1 |

Mae'r adolygiadau Mewnol a'r adroddiad blynyddol yn dangos ymhellach pa mor gadarn yw fy Rheolaeth Strategol, Rheoli Risg a Systemau Ariannol.

## Tîm Rheoli Busnes

Rwy'n gweithio gyda fy Nhîm Rheoli Busnes, sy'n cwrdd yn ffurfiol bob mis. Yn ystod 2022-23, roedd y Tîm Rheoli Busnes yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gomisiynydd, Cyfarwyddwr y Polisi, y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, a minnau.

Fel grŵp, mae'r Tîm Rheoli Busnes yn cyfrannu at asesu a rheoli risg a chyfleoedd; datblygu fy nodau strategol a'm Cynllun Busnes blynyddol; dyrannu, adnoddau ariannol, dynol ac adnoddau eraill, mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny; ac asesu perfformiad parhaus y sefydliad yn gyffredinol.

Fel Comisiynydd, rwy'n atebol am unrhyw benderfyniad a wneir.

## Rheoli Risg

Mae'r fframwaith risg a rheoli yn cael ei ategu gan y Strategaeth Rheoli Risg ac yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol.

Mae'r fframwaith risg hwn yn cydymffurfio â'r prif egwyddorion sydd wedi'u nodi yn nogfen Llywodraeth EF, Rheoli Egwyddorion a Chysyniadau Risg (Llyfr Oren), gan ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau bod y sefydliad wedi gwyro oddi wrth y Llyfr Oren.

Mae fy Strategaeth Rheoli Risg yn cydnabod nad yw'n bosibl dileu pob risg, ond, drwy'r Gofrestr Risgiau Strategol, caiff risgiau eu hadnabod a'u rheoli ac yna eu gostwng i lefel dderbyniol.

Mae'r strategaeth hefyd yn nodi er fy mod yn atebol am bob risg, mae gan yr holl staff rôl i adnabod risgiau posibl newydd a defnyddio'r camau lliniaru priodol i leihau neu i ddileu risg. Caiff y Strategaeth ei hadolygu bob blwyddyn ac fe gafodd ei hadolygu ddiwethaf ym mis Ionawr 2023.

Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu nad wyf yn amharod i gymryd risgiau a reolir i gyflawni'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Strategol. Byddaf yn ystyried y risg y bydd pethau'n mynd o chwith, a'r effaith o beidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio â manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r fath. Fodd bynnag, ni fyddaf yn goddef lefel uchel o risg a fyddai'n arwain at fethiant i gydymffurfio â gofynion llywodraethu, dyletswyddau statudol a gofynion cyfreithiol.

Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cael ei hystyried wrth adnabod blaenoriaethau'r sefydliad. Mae'r blaenoriaethau a bennir yn mynd i'r afael â sut byddant yn fy helpu i a'm Tîm Rheoli Busnes i reoli risgiau sylweddol.

Mae fy Nghofrestr Risg Strategol yn parhau i adlewyrchu'r risgiau a'r heriau cyfredol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Yn y gofrestr risg mae adran benodol yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau ar gyfer monitro neu faterion posibl yn y dyfodol, sy'n cael eu rheoli'n weithredol ac nad ydynt yn cael eu cydnabod fel risgiau strategol ond efallai yn y dyfodol.

Mae achos, effaith, rheolaethau a chamau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â risgiau yn y gofrestr risgiau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n ffurfiol bob mis gan y Tîm Rheoli Busnes, i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i addasu i'r amgylchedd sy'n newid a bod yr holl risgiau byw yn cael eu rheoli. Mae risgiau yn y dyfodol hefyd yn cael eu hadnabod gyda chamau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith; bydd y risgiau hyn yn cael eu huwchgyfeirio i'r brif gofrestr os bydd angen.

Mae'r risgiau hyn hefyd yn cael eu hadolygu'n ffurfiol yng nghyfarfod chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Cyflwynir Cofrestr Risg Strategol gyfredol i'r Pwyllgor, y matrics

sgorio, a phapur eglurhaol sy'n rhoi manylion y newidiadau mewn sgorio risg a chamau lliniaru dros y chwarter diwethaf a'r rhesymau dros y newidiadau hyn.

Byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod mewn amser real am unrhyw risg sy'n cael ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Strategol, er nad yw hyn wedi digwydd yn ystod 2022/23.

Ar gyngor fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, roeddwn yn cydnabod risg arall, sef 'nid ydym yn cael hysbysiad o'r gyllideb 202x/2x tan fis Rhagfyr 202x ac nid ydym yn derbyn y gyllideb 202x/2x y gofynnwyd amdani gan Lywodraeth Cymru'. Mae'r hysbysiad yn cael ei hychwanegu at y gofrestr risg ym mis Gorffennaf bob blwyddyn a'i thynnu ym mis Rhagfyr i adlewyrchu'r effaith y mae amseriad cyhoeddiadau cyllideb Llywodraeth Cymru yn ei chael ar y sefydliad.

Er bod y risg hon yn fyw ar fy Nghofrestr Risg, roedd yn sgorio'r uchaf yn gyson o'm holl risgiau strategol, oherwydd y posibilrwydd na fyddai Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysau cyllido rheolaidd ac yn cynyddu fy nghyllideb sylfaenol. Heb y cyllid ychwanegol hwn, ni fyddaf wedi cael y cyfle i gynnal strwythur y sefydliad a byddaf wedi cael fy ngorfodi i adolygu a lleihau nifer y staff yr wyf yn eu cyflogi, a fydd yn cael effaith sylweddol ar fy ngallu i gyflawni fy mlaenoriaethau strategol.

Yn ogystal â'r risg ariannol a nodwyd uchod, mae pwysau yn y gweithle a achosir yn bennaf gan yr anawsterau recriwtio cenedlaethol wedi cael effaith negyddol ar rai o'r risgiau strategol yn fy nghofrestr risg gan fy mod wedi cael llai o staff i gyflawni fy rhaglen waith.

Fodd bynnag, mae fy adroddiad blynyddol yn dangos yn glir yr effaith gadarnhaol sylweddol y mae fy staff cyfwerth ag amser llawn, sef 17.71 (20.03; 2021/22), yn parhau i'w chael ar fywydau pobl hŷn yng Nghymru.

## Codi Pryderon

Mae gen i Bolisi Codi Pryderon sefydledig yn nodi sut gall staff chwythu'r chwiban os ydynt yn amau bod drwgweithredu neu beryglon yn y gweithle. Mae adnabod drwgweithredu yn fewnol yn elfen bwysig o reoli risg gorfforaethol ac mae'n cyfrannu at lywodraethu effeithiol.

Os bydd fy staff neu eraill yn mynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol sy'n cynnwys Polisi Codi Pryderon a Pholisi Cwynion. Caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud â fy rôl eu cyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae staff newydd yn cael gwybod am y polisi yn ystod eu cyfnod cynefino, ac yn ystod 2022/23 fe wnaeth y Prif Swyddog Gweithredu roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y polisi.

Yn ystod 2022-23, ni ddaethpwyd â dim pryderon i'm sylw i nac i sylw Cadeirydd y Pwyllgor o dan fy mholisi Codi Pryderon mewnol (2021-22: dim).

Yn ystod 2022/23, ni wnaed dim cwynion allanol ffurfiol o dan y Polisi Cwynion (2021/22: 0).

## Adolygu Effeithiolrwydd

Drwy gydol 2022/23, rwyf wedi diwygio, mireinio a monitro fy risgiau strategol a gweithredol yn unol â fy strategaeth rheoli risg ac yn ystod 2023/24 byddaf yn parhau i fonitro, cynnal a, pan fo'n briodol, gwella'r fframwaith llywodraethu i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu fy anghenion o ran sicrwydd.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf ddyletswydd gyfreithiol i reoli adnoddau cyhoeddus yn briodol ac, o ganlyniad, rwyf yn adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu yn barhaus. Mae gwaith archwilio mewnol, fy Nhîm Rheoli Busnes a sicrwydd a roddwyd gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, yn ogystal â sylwadau archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) yn sail i'r adolygiad hwn, ac maent wedi'u cynnwys yn y llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

## Barn y Comisiynydd ar y Datganiad Llywodraethu

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn y datganiad llywodraethu hwn ac, yn fy marn i, mae'r gweithdrefnau a'r strwythurau rheoli mewnol a llywodraethu cyffredinol wedi bod yn briodol o ran cefnogi fy swyddogaethau a'm blaenoriaethau ac wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol, yn ogystal ag wedi parhau i weithio'n effeithiol hyd at ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon.

Mae'r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, a pharatowyd y datganiad yn unol â chanllawiau'r Trysorlys.

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
26 Medi 2023

# Adroddiad ar staff a thaliadau

## Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy'n pennu fy nghyflog i, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae fy nghontract yn wahanol i ddeiliaid swyddi cyhoeddus eraill gan nad yw'n caniatáu ar gyfer codiadau costau byw chwyddiannol, dyfarniadau cynyddrannol na bonysau. O ganlyniad, nid yw fy nghyflog wedi cynyddu ers i mi gael fy mhenodi yn 2018. Rwy'n gymwys i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac wedi ymuno â'r Cynllun Pensiwn hwnnw.

Bydd unrhyw rolau newydd sy'n cael eu cynnwys yn fy strwythur sefydliadol yn cael eu gwerthuso gan ddefnyddio meincnod a sefydlwyd gan sefydliad Adnoddau Dynol allanol, i sicrhau eu bod yn cael eu graddio'n briodol. Yn ystod 2023-24, rwy'n bwriadu defnyddio sefydliad allanol i gynnal ymarfer gwerthuso swyddi ar gyfer y rolau yn fy sefydliad i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu graddio'n briodol.

Drwy fy strategaeth tâl a gwobrwyo, rwy'n pennu cyflogau staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Dyfernir codiadau cynyddrannol i gyflogau staff yn unol â thelerau ac amodau cytundebol ac, wrth benderfynu a ddylid dyfarnu dyfarniad cyflog i staff, rwy'n ystyried fforddiadwyedd o fewn fy nghyllideb fy hun, chwyddiant a'r dyfarniadau cyflog a gynigir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, dyfarnwyd cynnydd costau byw chwyddiannol o 4% i bob aelod staff yn 2022-23 (dyfarnwyd 2% yn 2021-22).

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cyflogeion Cyrff Hyd Braich yn cael yr un cyflog â'r isafswm cyflog ar gyfer eu graddfa gyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Roedd fy swyddfa yn un o naw Corff Hyd Braich a fu'n ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn yr ymarfer hwn ac, yn ystod 2022-23, cytunais â Llywodraeth Cymru y byddwn yn cynyddu'r pwynt graddfa cyntaf ar bob un o'm graddfeydd cyflog Bandiau A i E i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r pwynt cyflog minima ar bob un o raddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Cafodd yr ymarfer hwn ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac roedd pedwar aelod o staff yr effeithiwyd arnynt.

## Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff ar eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol â thelerau ac amodau a bennir gennyf i. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Pedair blynedd yw cyfnod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Ar ôl ymgynghori â phobl hŷn, gall Llywodraeth Cymru gynnig estyniad o ddwy flynedd i gyfnod swydd y Comisiynydd, neu gall y Comisiynydd wneud cais arall drwy broses recriwtio agored am gyfnod ychwanegol o bedair blynedd. Yn dilyn y broses ymgynghori, rwyf wedi cytuno â Llywodraeth Cymru y bydd fy nghyfnod yn y swydd yn cael ei ymestyn am ddwy flynedd ychwanegol tan fis Awst 2024.

Oni nodir yn wahanol, mae penodiadau'r staff sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn benagored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau'r PCSPS ar yr oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu ffyrdd o werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fonitro ar bob cam o'u cyflogaeth gyda'r sefydliad. Rwyf wedi rhoi rhaglen datblygu sefydliadol ar waith i wella gallu a gwella lefelau perfformiad cyffredinol.

Byddai terfynu swydd yn gynnar, ac eithrio oherwydd camymddwyn neu ymddiswyddiad, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau Pensiwn

**(yn amodol ar archwiliad)**

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion taliadau a buddiannau pensiwn fy staff uwch a minnau.

## Cyfanswm Unigol y Taliad

**(yn amodol ar archwiliad)**

Mae'r 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfans arall i'r graddau bod trethiant y Deyrnas Unedig yn berthnasol iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronnwyd ac a wnaed gan y Comisiynydd ac sydd wedi'u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol nac unrhyw fonws.

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn(1) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
| Heléna Herklots<br>Comisiynydd | 90-95 | 90-95 | 35 | 35 | 125-130 | 125-130 |
| Kelly Davies<br>Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd | 65-70 | 65-70 | 27 | 26 | 95-100 | 90-95 |
| Rachel Bowen<br>Cyfarwyddwr Polisi | 30-35(2) | amh. | 13 | amh. | 40-45 | amh. |
| Katie Holliday<br>Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 55-60 | 50-55 | 25 | 28 | 80-85 | 75-80 |

(1) Mae gwerth y buddion pensiwn sydd wedi'u cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai'r (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

(2) Dechreuodd cyfnod Rachel Bowen yn y swydd ar 19 Medi 2022; y bandio ar gyfer cyflog a oedd yn cyfateb i flwyddyn lawn ar gyfer 2022-23 oedd £55,000-£60,000.

## Buddion Pensiwn

**(yn amodol ar archwiliad)**

| | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn – ar 31/3/23 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn | CETV ar 31/03/23 | CETV ar 31/03/22 | Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Heléna Herklots<br>Y Comisiynydd | 10-15 | 0-2.5 | 144 | 107 | 23 |
| Kelly Davies<br>Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd | 15-20 | 0-2.5 | 177 | 152 | 12 |
| Rachel Bowen(1)<br>Cyfarwyddwr Polisi | 0-5 | 0-2.5 | 8 | 0 | 6 |
| Katie Holliday<br>Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 15-20 | 0-2.5 | 196 | 166 | 11 |

(1) Dechreuodd Rachel Bowen yn ei swydd ar 19 Medi 2022 ac; nid oedd CETV.

Mae manylion pellach ar drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan

**Dolen i'r wefan:** Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actiwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i gymar. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cynllun Pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "alpha" - yn gynlluniau buddion diffiniedig heb eu cyllido ar gyfer sawl cyflogwr, ond nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu canfod beth yw ei gyfran o'r asedau a'r dyledion.

Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yma.

Ar gyfer 2022-23, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £216,800 yn daladwy i'r PCSPS (2021-22: £198,300) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2022-23 sydd i'w talu i'r aelod pan mae'n ymddeol, ac nid y buddion a gaiff eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithiwr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth: sef pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr gwerth £3,000 i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliad penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan y cyflogwr o £100, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd salwch yng nghyswllt y gweithwyr hyn.

Roedd cyfraniadau a oedd yn daladwy i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £dim (£dim: 2021-22). Roedd y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw yn £dim.

Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys o dan y pennawd Costau Pensiwn Eraill yn y tabl ar dudalen 73.

# Adroddiad Staff

**(yn amodol ar archwiliad)**

Ar 31 Mawrth 2023, roedd y staff cyfwerth ag amser llawn yn 16.73 (31 Mawrth 2022: 19.26)

Mae costau staff yn cynnwys:

| | | 2022-23 | | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | Staff Parhaol | Staff Wrth Gefn | Cyfanswm costau staff | Cyfanswm costau staff |
| Cyflogau | 803 | 5 | 808 | 817 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 90 | 1 | 91 | 85 |
| Costau Pensiwn Eraill | 219 | 1 | 220 | 213 |
| **Cyfanswm costau net** | **1,112** | **7** | **1,119** | **1,100** |

# Taliadau Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Fel rhan o'u telerau ac amodau, mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu talu am wyth diwrnod y flwyddyn, ar gyfradd ddyddiol o £350 a £400 i'r Cadeirydd. Mae aelodau hefyd yn cael eu talu am sesiynau hyfforddi a fynychwyd yn ystod y flwyddyn ac am unrhyw waith ychwanegol a wnaed i'r Comisiynydd. Sylwer, ni wnaed unrhyw waith ychwanegol yn ystod 2022-23 gan aelodau'r Pwyllgor.

Wedi'u cynnwys o fewn costau staff mae £12,000 (2021-22: £17,000) sy'n ymwneud â thaliadau, heb fod yn bensiynadwy, i bedwar aelod Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd. Yn ystod 2021-22, cyflogodd y Comisiynydd bum aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd, mae Aelodau'n cael ad-daliad drwy'r gyflogres am eu costau teithio a chynhaliaeth.

# Nifer y Staff

**(yn amodol ar archwiliad)**

Dyma nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gennyf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch aelodau staff):

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 17.63 | 17.26 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 0.08 | 2.77 |
| **Cyfanswm** | **17.71** | **20.03** |

Ar ddiwedd y cyfnod ariannol, dyma nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn oedd yn gyflogedig gennyf (gan gynnwys uwch aelodau staff):

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 16.73 | 17.26 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 0 | 2.00 |
| **Cyfanswm** | **16.73** | **19.26** |

Yn y tablau uchod, mae'r staff cyflogedig yn cael eu nodi mewn niferoedd sydd gyfwerth ag amser llawn.

## Datgeliad Cyflog Teg

**(yn amodol ar archwiliad)**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm yn cynnwys cyflog yn unig, ac nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau. .

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Band cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y mwyaf o gyflog (y Comisiynydd) | £90,000-£95,000 | £90,000-£95,000 |
| Newid canrannol yn y cyflog cyfartalog o'r flwyddyn flaenorol | 39.50% | -1.21% |
| Taliad chwartel isaf | £31,871 | £30,287 |
| Cymhareb cyflog – 25ain canradd | 2.89 | 3.05 |
| Taliad cyfan canolrifol | £37,440 | £36,622 |
| Cymhareb cyflog canolrifol | 2.46 | 2.52 |
| Taliad chwartel uchaf | £47,840 | £44,581 |
| Cymhareb cyflog – 75ain canradd | 1.93 | 2.07 |

Mae trosiant cymharol uchel o staff; cyflwyno Cyfarwyddwr Polisi i'r strwythur sefydliadol; dyfarniad costau byw o 4% ac effaith ymarfer cydraddoldeb cyflog Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar y newid canrannol mewn cyflog cyfartalog o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cymarebau cyflog yn dangos bod cyflogau staff yn gyffredinol wedi aros yn gymharol sefydlog.

Roedd tâl wedi'i fandio'r Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £90,000-£95,000 yn 2022-23 (2021-22: £90,000 - £95,000). Nid yw'r Comisiynydd wedi derbyn cynnydd costau byw ers iddi ddechrau'r rôl yn 2016, felly nid yw ei chyflog wedi newid.

Mae cyflog y Comisiynydd yn 2.46 gwaith (2021-22: 2.52) tâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £37,440 (2021-22: £36,622). Mae'r gymhareb wedi lleihau ychydig bach oherwydd mae'r taliadau cyffredinol i staff wedi cynyddu ar raddfa gyflymach na thâl y Comisiynydd.

Yn 2022-23, ni chafodd yr un gweithiwr cyflogedig (2021-22: dim) daliadau a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd. Roedd taliadau yn amrywio o £25,000 - £30,000 i £90,000 - £95,000 (2021-22: £20,000 - £25,000 i £90,000 - £95,000).

## Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

**(ddim yn amodol ar archwiliad)**

Mae'r tabl isod yn dangos enillion canolrifol a chymedrig fy staff fesul awr.

| | 31 Mawrth 2023 | | 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Benywaidd | Gwrywaidd | Benywaidd | Gwrywaidd |
| **Cyfanswm canolrifol** | £19.46 | £19.78 | £20.67 | £21.05 |
| **Cyfanswm cymedrig** | £22.51 | £19.60 | £22.87 | £19.45 |

Dyma gyfansoddiad staff fy swyddfa yn ôl rhyw a band ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon::

| | 31 Mawrth 2023 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E* | Band F* | Com* |
| **Benywaidd** | 0 | 3 | 5 | 3 | 1 | 2 | 1 |
| **Gwrywaidd** | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |

*Mae fy Nhîm Rheoli Busnes i gyd yn fenywod

Ar 31 Mawrth 2023, mae'r cyflog canolrifol ar gyfer y ddau ryw tua'r un fath, ond mae cyflog cymedrig menywod yn uwch gan fod fy Nhîm Rheoli Busnes i gyd yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2022-23 yn -12.91%, a bod menywod yn ennill £112.91 am bob £100 y mae dynion yn ei ennill.

## Ystadegau oedran y gweithlu

**(ddim yn amodol ar archwiliad)**

Niferoedd yn ôl oedran ar 31 Mawrth 2023

| 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 a hŷn | Heb ddatgelu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 8 | 5 | 3 | 0 | 0 |

## Trosiant staff

**(ddim yn amodol ar archwiliad)**

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nif. staff | 2 | 5 | 3 | 1 | 4 |
| Trosiant | 10.04% | 24.27% | 15.51% | 5.02% | 22.57% |

Mae maint fy sefydliad, ac felly maint y sampl sydd ar gael, yn sgiwio gwerthoedd y trosiant yn y tabl uchod, gan fod un person yn gadael y sefydliad yn cynrychioli trosiant o 5%.

## Absenoldeb Oherwydd Salwch

Mae'r gyfradd gyfartalog ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch fesul aelod o staff wedi gostwng o gymharu â 2021-22, i 6.38 diwrnod (8.93 diwrnod yn 2021-22). Pe bai'r absenoldebau tymor hir, sef rhai sy'n hwy na phedair wythnos, yn cael eu tynnu o'r cyfraddau absenoldeb salwch cyfartalog, 4.52 diwrnod fyddai'r gyfradd ar gyfer 2022-23.

Rwyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Byddaf yn edrych yn ofalus ar fy arferion recriwtio ar ôl pob penodiad er mwyn deall rhwystrau posibl yn well a sicrhau bod arferion recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch i ystod eang o ymgeiswyr sydd â sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Mae gennyf Gynllun Gwarantu Cyfweliad sy'n rhoi'r hawl i unigolion ag anableddau ac o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol adeg llunio'r rhestr fer.

Hysbysebir swyddi gwag drwy amrywiaeth o rwydweithiau er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, ac mae modd cael gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau ar gais. Mae gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig pob ymgeisydd yn cael ei chasglu a'i monitro i sicrhau cyfle cyfartal. Hefyd, rwy'n parhau i gasglu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb ar broffil fy ngweithlu. Rwy'n parhau i fonitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fy ngweithlu, sydd o blaid menywod ar hyn o bryd.

Rwy'n cynnal adolygiad parhaus o'r mathau o gontractau a phatrymau gweithio yn fy ngweithlu er mwyn deall a delio â rhwystrau posibl, gyda'r nod o gadw ymgeiswyr gyda sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Fel rhan o'm hymrwymiad i sicrhau bod arferion da yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hyrwyddo dysgu, datblygu a lles cyffredinol, mae fy swyddfa wedi derbyn achrediad Gwobr Iechyd y Gweithle Bach (Aur). Mae'r Wobr yn gynllun cydnabyddiaeth cenedlaethol i fusnesau sy'n gofalu am iechyd a lles eu gweithwyr, ac mae'n brawf annibynnol o'm hymrwymiad i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol i bob aelod o staff. Er mwyn ennill y Wobr Aur, rhaid i gyflogwyr ddangos tystiolaeth o ymrwymiad y sefydliad i ddiwylliant sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg yr holl staff, gan beidio â goddef ymddygiad amhriodol (e.e. bwlio ac aflonyddu) a dangos tystiolaeth o arferion gweithio hyblyg i gyfrannu at les staff.

## Polisïau staff yng nghyswllt gweithwyr anabl

Ar gais, byddem yn darparu gwybodaeth recriwtio mewn fformat gwahanol, fel print bras, Braille neu'n electronig. Mae ceisiadau am swyddi hefyd yn cael eu derbyn mewn fformatau gwahanol. Byddwn yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yng nghyswllt y trefniadau ar gyfer y cyfweliad, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn iaith o ddewis yr unigolyn.

Byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, lle byddai modd, i atal pobl anabl rhag bod dan anfantais. Mae hyn yn berthnasol i gyfweliadau a threfniadau ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n ymuno â'r sefydliad, ac ar gyfer aelodau presennol o staff sy'n dychwelyd i weithio ar ôl anaf neu salwch hefyd.

## Ymgysylltu â Gweithwyr

Er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymgysylltu'n llawn ac yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, rwy'n cynnal cyfarfodydd tîm ddwywaith yr wythnos ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am faterion gweithredol fel cynllunio gwaith, materion gweithredol ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mae staff wedi dweud bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfathrebu o fewn y sefydliad.

Rwy'n grymuso staff i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u hamgylchedd gwaith, ac i gyfrannu atynt. Enghraifft o hyn yw bod yr holl bolisïau newydd yn cael eu cyflwyno i staff am adborth ar ôl iddynt gael eu datblygu a bod unrhyw bolisïau sydd â newidiadau sylweddol hefyd yn cael eu dosbarthu er gwybodaeth a sylwadau. Yn ystod 2022-23, ymgynghorwyd â staff ynghylch cyflwyno Polisi Gofalwyr newydd, a gafodd ei lansio'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2023.

Yn ogystal â rhoi cyfle i staff roi adborth ar bolisïau newydd, roeddent hefyd yn ymwneud â lleoliadau swyddfeydd posibl yn y dyfodol a dewisiadau amgylcheddol. Cymerodd yr holl staff ran yn y gwaith o lenwi holiadur ar-lein ac roeddent yn cymryd rhan mewn trafodaethau wedi'u hwyluso. Roedd y tîm yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau i symud i lawr gwaelod yr un cyfeiriad swyddfa.

## Buddion i weithwyr

Rwy'n helpu gweithwyr i gynnal cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd drwy weithredu system amser hyblyg a darparu cyfleoedd ar gyfer patrymau gwaith hyblyg.

Mae Gwobr Iechyd y Gweithle Bach (Safon Aur) gennyf ers 2018, ac fe gafodd ei ail-ddilysu ym mis Mawrth 2023. Yn ei adroddiad ffurfiol, dywedodd yr asesydd fod "ethos llesiant Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi'i wreiddio yn y ffordd mae'r sefydliad yn gofalu am staff".

Rwyf wedi parhau i wneud yn siŵr bod rhaglen iechyd a lles gynhwysfawr yn cael ei chyflwyno drwy gydol y flwyddyn i'r holl staff.

Yn ystod 2022-23, roedd iechyd meddwl a llesiant yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer cefnogi staff. Rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023, cafodd gweithdai misol eu cynnal gan weithwyr proffesiynol allanol a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd pynciau fel canolbwyntio ar eich cyllid, ymyrryd ar orbryder, 5 Mawr hunanofal, creu arferion cadarnhaol ac amynedd yw eich archbŵer.

Yn 2021-22, cyflwynwyd cyfres o weithdai a sesiynau hyfforddi hefyd i'r holl staff a oedd yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb Hiliol, Rhagfarn Ddiarwybod a Braint Pobl Wyn. Bwriad y gweithdai hyn oedd datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y sefydliad o gydraddoldeb hiliol ymhellach. I arddangos ymhellach ein hymrwymiad i fod yn sefydliad gwrth-hiliol, mae cynllun gweithredu gwrth-hiliol yn cael ei ddatblygu, a bydd staff yn ymgysylltu ag ef ac yn cyfrannu ato drwy sesiynau tîm sefydliadol penodedig.

Yn ystod 2022-23, fe wnes i gynnig cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i bob gweithiwr gael hyfforddiant iaith Gymraeg, wedi'i ariannu'n llawn gan y sefydliad. Roedd pedwar aelod o staff wedi manteisio ar y cyfle hwn.

Mae gennyf Raglen Cymorth i Weithwyr sy'n gyfrinachol ac am ddim i bob aelod o staff.

Bob blwyddyn, mae staff yn cynnal hunanasesiad DSE o'u gweithfan. Mae staff yn ymwybodol y byddwn yn trefnu, ar gais, i asesydd ymweld â'u cartrefi a darparu cefnogaeth un-i-un i sicrhau bod yr offer angenrheidiol ganddynt, a'i fod wedi'i osod yn iawn i'w galluogi i weithio'n effeithiol ac yn ddiogel gartref.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae buddion fel Cynlluniau Talebau Gofal Plant a Beicio i'r Gwaith ar gael iddynt hefyd.

Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae'r achrediad hwn yn golygu bod pob aelod o staff yn y sefydliad yn ennill y Cyflog Byw o leiaf. Mae'r Cyflog Byw yn seiliedig ar gostau byw yn y Deyrnas Unedig.

Does dim achos wedi bod lle bu'n rhaid i mi negodi ag undeb llafur ar ran staff.

## Cyflogiadau heb fod ar y Gyflogres

Nid oedd unrhyw gyflogiadau heb fod ar y gyflogres yn ystod 2022-23; (dim, 2021-22).

## Gwariant ar Wasanaethau Ymgynghori

Nid oedd unrhyw wariant ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2022-23; (dim, 2021-22).

## Iawndal am Golli Swydd

**(yn amodol ar archwiliad)**

Ni wnaed taliadau iawndal yn 2022-23; (dim, 2021-22).

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
26 Medi 2023



# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith gymwys a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, o bob safbwynt perthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig safbwynt gwir a theg o faterion Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm a'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi yn briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi cael eu paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a roddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, o bob safbwynt perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi cael gafael arni yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd

perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu'n gyfunol, arwain at amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o flwyddyn o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o ran busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir y sail gyfrifyddu busnes gweithredol hon ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gan ystyried y gofynion a gyflwynir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau o'r adroddiad cydnabyddiaeth ariannol a archwilir a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad sicrwydd arni ac eithrio i'r graddau y nodir yn eglur fel arall yn fy adroddiad. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth y cafwyd gafael arnynt yn ystod yr archwiliad, neu y mae'n ymddangos eu bod wedi cael eu cam-ddatgan yn berthnasol mewn ffordd arall. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf i wedi ei wneud, byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a roddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a roddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gaffaelwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw, neu nad yw datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau na ymwelwyd â nhw gan fy nhîm;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff a archwiliwyd yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- nad yw datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF wedi eu gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff a archwiliwyd yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fwy llawn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn cynnig safbwynt gwir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi'r paratoad o ddatganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, pa un a yw hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n berthnasol materion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol am ba un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, pa un a yw hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n sicrwydd pendant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol

neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o ddiffyg cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, yw afreoleidd-dra. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddarganfod camddatganiadau perthnasol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys caffael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiad;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt unrhyw wybodaeth am dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
  - y rheolaethau mewnol sydd wedi'u sefydlu i liniaru risgiau yn gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a lle gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Yn rhan o'r drafodaeth hon, fe wnes i nodi'r potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol a rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a oedd yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a oedd yn cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; a
- Chael dealltwriaeth o'r berthynas â phartïon cysylltiedig

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau a'r profion datganiad ariannol ar ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn gwrthwneud rheolaethau, gan brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcanion cyfrifyddu yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i drywydd busnes arferol.

Cyfathrebais hefyd ddeddfau a rheoliadau a nodwyd perthnasol a risgiau twyll posibl i'r holl dîm archwilio gan gadw yn effro i unrhyw awgrymiadau o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Caiff i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, ei effeithio gan yr anhawster cynhenid yn canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi ganfod tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyswllt, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaeth fewnol yr wyf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

# Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
**Auditor General for Wales**
**27 Medi 2023**

Archwilydd Cyffredinol Cymru // 1 Cwr y Ddinas // Stryd Tyndall // Caerdydd // CF10 4BZ

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymu wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Pobl hŷn Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*




# Datganiadau Ariannol

## Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022-23<br>£ 000 | 2021-22<br>£ 000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau staff | 2 | 1,119 | 1,115 |
| Gwariant Gweithredu Arall | 3 | 471 | 389 |
| Eitemau anariannol | 3 | 16 | 9 |
| Darpariaeth a ddarparwyd / (Rhyddhau'r ddarpariaeth) | 11 | (67) | 8 |
| | | 1,539 | 1,521 |
| **Gweithgareddau cyllid** | | | |
| Llog ariannol ar brydles | 10 | 1 | 0 |
| **Gwariant net ar ôl llog** | | 1,540 | 1,521 |
| **Incwm** | | | |
| Gwerthu dodrefn swyddfa | | (2) | 0 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **1,538** | **1,521** |

Mae'r holl incwm a'r gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.

Nid oes dim enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2022-23 na 2021-22.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | | 31 Mawrth 2023 | | 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £ 000 | £ 000 | £ 000 | £ 000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Asedau Hawl-i-Ddefnyddio | **4** | 78 | | 0 | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | **5** | 32 | | 11 | |
| Asedau anniriaethol | | 36 | | 39 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | **6** | | 146 | | 50 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **7** | 21 | | 60 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | **8** | 71 | | 147 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | 92 | | 207 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 238 | | 257 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **9** | (35) | | (68) | |
| Prydles Hawl i Ddefnyddio | **10** | (10) | | 0 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | (45) | | (68) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol** | | | 193 | | 189 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | **11** | (0) | | (97) | |
| Prydles Hawl i Ddefnyddio | **10** | (70) | | 0 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | (70) | | (97) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **123** | | **92** |
| Ecwiti trethdalwyr | | | 123 | | 92 |
| **Cronfa wrth gefn gyffredinol** | | | **123** | | **92** |

# Datganiad o'r Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023<br>£ 000 | 31 Mawrth 2022<br>(ailddatgan)<br>£ 000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu yn cynnwys llog | | (1,540) | (1,521) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | **3** | 16 | 9 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y rhyddhau | **11** | (97) | 8 |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **7** | 39 | (6) |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **9** | 33 | (4) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(1,615)** | **(1,514)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | **5** | (29) | 0 |
| Prynu asedau anniriaethol | **6** | (6) | 38 |
| Enillion o warediadau | | 4 | 0 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(31)** | (38) |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Asedau Hawl-i-Ddefnyddio; llog | **10** | 1 | 0 |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 1,569 | 1,301 |
| **Cyllid net** | | **1,570** | **1,301** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod am y cyfnod** | | **(76)** | **(251)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | **8** | **147** | **398** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | **8** | **71** | **147** |

**Heléna Herklots CBE**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
26 Medi 2023

# Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

**Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol**

| | 1 Ebrill 2022-<br>31 Mawrth 2023<br>£000 | 1 Ebrill 2021-<br>31 Mawrth 2022<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 92 | 312 |
| Gwariant net | (1,538) | (1,521) |
| Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig | (1,446) | (1,209) |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 1,569 | 1,301 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **123** | **92** |



# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2022-23. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd sydd fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn costau hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw asedau gan nad oedd unrhyw addasiad ailbrisio yn berthnasol ym marn y Comisiynydd.

### 1.2 Incwm, Cyllid a Gwariant

Prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru, a hynny ar ffurf dyraniad cyllid blynyddol.

Os yw cyfrifyddu yn seiliedig ar groniadau, mae'n golygu bod yr incwm a'r gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan mae taliadau ariannol yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd yn berthnasol i Gymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gyda TAW wedi'i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol, gan nad oes modd adfer TAW.

Yn ystod 2021-22 defnyddiodd y Comisiynydd ei balansau arian hanesyddol i ariannu gwariant yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod yr arian a ddefnyddiwyd yn ystod 2021-22, sef £1,552,000, yn wahanol iawn i'r arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, sef £1,301,000.

## 1.3 Eiddo, Offer a Chyfarpar

Isafswm lefel cyfalafu Eiddo, Offer a Chyfarpar yw £5,000 gan gynnwys TAW anadferadwy.

Darperir dibrisiant ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu'r asedau drwy randaliadau cyfartal dros yr hyn a amcangyfrifir fel eu hoes ddefnyddiol. Caiff dibrisiant ei ddarparu o'r dyddiad mae oes ddefnyddiol yr ased yn dechrau.

Fel arfer, mae oes asedau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri, hyd at uchafswm o 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |
| Offer cysylltiedig â TG | 5 mlynedd |
| Ased Hawl-i-Ddefnyddio | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri, hyd at uchafswm o 5 mlynedd |

Cynhwysir Eiddo, Offer a Chyfarpar ar eu cost, oherwydd ym marn y Comisiynydd, ni fyddai unrhyw addasiad sy'n codi o ailbrisio yn berthnasol.

Delir teitl pob eiddo gan y Comisiynydd. Mae'r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles.

## 1.4 Asedau Anniriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anniriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW anadferadwy.

Cafodd trwyddedau meddalwedd, meddalwedd technoleg gwybodaeth a'r wefan eu cyfalafu fel asedau anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (pum mlynedd fel arfer).

## 1.5 Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido.

## 1.6 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Gellir ei ddisgrifio fel cynllun buddion diffiniedig heb ei gyllido ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/

## 1.7 Rhagdaliadau

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu trothwy de minimis o £1,200 (£100 o dâl cyfatebol misol) er mwyn cydnabod rhagdaliadau. Bydd y tâl wedi'i broffilio yn cael ei ryddhau yn y mis y bydd y treuliau'n codi.

## 1.8 Tâl prydles gwerth isel

Mae gan y Comisiynydd un brydles tymor byr ar gyfer gofod storio. Mae gwerth y brydles hon yn isel, ac nid oes disgwyliad rhesymol i gyfnod y brydles bara mwy na deuddeg mis. Mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel treuliau ac yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth.

## 1.9 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu gontractiol lle mae'r amseriad neu'r swm yn ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

## 1.10 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Roedd y Comisiynydd wedi tynnu arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân yn cael ei gadw yn swyddfa'r Comisiynydd hefyd.

## 1.11 Buddion gweithwyr cyflogedig

Cydnabyddir cyflogau a chyfraniadau yswiriant gwladol gweithwyr cyflogedig presennol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau'r gweithwyr gael eu cyflawni. Mae'r Comisiynydd yn rhoi cyfrif am wyliau blynyddol â thâl fel rhwymedigaeth lle disgwylir i'r iawndal am absenoldeb gael ei setlo o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r gweithwyr yn cyflawni eu gwasanaeth ynddo.

## 1.12 Asedau Hawl i Ddefnyddio

Mae IFRS 16 wedi disodli safon prydlesi presennol IAS 17 ac mae'n mynnu bod contractau'n cael eu hasesu i gadarnhau a ydynt yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am ystyriaeth. Os ydynt, rhoddir cyfrif amdanynt yn unol ag IFRS 16 gydag ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydlesi yn cael eu cydnabod ar y dyddiad cychwyn. Mae'r ased hawl i ddefnyddio yn cael ei fesur ar sail cost i ddechrau, sy'n cynnwys swm cychwynnol rhwymedigaeth y brydles a addaswyd ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau a chymhellion.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad cychwyn hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y brydles. Pennir oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr asedau hawl i ddefnyddio ar yr un sail ag asedau eiddo, offer a chyfarpar.

Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei mesur i ddechrau ar sail gwerth presennol taliadau'r brydles nad ydynt yn cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles neu, os na ellir pennu'r gyfradd honno'n rhwydd, gan ddefnyddio'r gyfradd benthyca cynyddrannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Gan nad yw prydles y Comisiynydd ar gyfer y swyddfa yn cynnwys cyfradd llog ymhlyg, defnyddiwyd cyfradd ddisgownt Trysorlys Ei Fawrhydi o 3.51%.

## 1.13 Safonau Cyfrifo sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Mae IAS 8 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu mewn perthynas â safonau cyfrifyddu newydd, diwygiadau a dehongliadau sydd, neu a fydd, yn gymwys ar ôl y cyfnod cyfrifyddu.

Ym marn u Comisiynydd, ni fydd unrhyw safonau sydd wedi'u cyhoeddi ac sydd heb eu gweithredu eto yn effeithio ar y sefydliad.



## 2. Mae costau staff yn cynnwys:

| | | 2022-23 | | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | **Staff Parhaol** | **Staff Wrth Gefn** | **Cyfanswm costau staff** | **Cyfanswm costau staff** |
| Cyflogau | 803 | 5 | 808 | 817 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 90 | 1 | 91 | 85 |
| Costau Pensiwn Eraill | 219 | 1 | 220 | 213 |
| **Cyfanswm y costau** | **1,112** | **7** | **1,119** | **1,115** |

Mae dadansoddiad o gostau staff wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau ar dudalen 48.

## 3. Gwariant Gweithredu Arall

Mae gwariant gweithredu arall yn cynnwys:

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 (ailddatgan) £000 |
|---|---|---|---|
| Rhaglenni Penodol | | 97 | 56 |
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | | 72 | 73 |
| Costau eraill o ran llety | | 62 | 68 |
| Technoleg gwybodaeth | | 91 | 82 |
| Ffioedd proffesiynol | | 48 | 50 |
| Hyfforddiant a datblygu | | 8 | 12 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 3 | 6 |
| Ffioedd archwilio – Archwiliad mewnol | | 9 | 8 |
| Ffioedd archwilio – Archwiliad allanol | | 16 | 14 |
| Costau gweinyddol eraill | | 65 | 20 |
| | | **471** | **389** |
| Eitemau anariannol: | | | |
| Dibrisiant ased hawl i ddefnyddio | 4 | 1 | 0 |
| Colled ar waredu Offer Diogelu Personol (PPE) | 5 | 2 | 0 |
| Dibrisiant PPE | 5 | 4 | 7 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 6 | 9 | 2 |
| | | **16** | **9** |
| **Cyfanswm** | | **487** | **398** |

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r gwariant ar gyflawni fy nghynllun strategol, a phrosiectau untro gwerth uchel eraill.

| **Maes blaenoriaeth strategol** | **£000** |
|---|---|
| Diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn | 58 |
| Atal Cam-drin Pobl Hŷn | 16 |
| Galluogi pawb i Heneiddio'n Dda | 4 |
| Rhoi Diwedd ar Oedraniaeth a Gwahaniaethu ar Sail Oedran | 4 |
| Cynhyrchu adnoddau hygyrch | 15 |
| **Rhaglenni Penodol** | **97** |

Nid yw'r gwariant a ddatgelwyd uchod yn cynnwys dosrannu unrhyw gostau cyflog staff y Comisiynydd, ac mae'n adlewyrchu costau uniongyrchol ychwanegol yn unig.

## 4. Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

| | **Prydles Swyddfa £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | - | - |
| Ychwanegiadau | 79 | 79 |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **79** | **79** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | - | - |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 1 | 1 |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **1** | **1** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | **78** | **78** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022 | - | - |

## 5. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | **Offer Cyfrifiadurol £000** | **Offer Swyddfa £000** | **Gwelliannau Prydles £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | **30** | **32** | **279** | **341** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 29 | 29 |
| Gwarediadau | (30) | (24) | (278) | (332) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **0** | **8** | **30** | **38** |
| Dibrisiant ac Amhariad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | **27** | **25** | **278** | **330** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 1 | 2 | 1 | 4 |
| Gwarediadau | (28) | (22) | (278) | (332) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **0** | **5** | **1** | **6** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | **0** | **3** | **29** | **32** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022 | 3 | 7 | 1 | 11 |

Ni amharwyd ar unrhyw asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

## 6. Asedau Anniriaethol

| | Trwyddedau Meddalwedd £000 | Technoleg Gwybodaeth £000 | Gwefan £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 46 | 70 | 36 | 152 |
| Ychwanegiadau | 0 | 6 | 0 | 6 |
| Gwarediadau | 0 | (12) | 0 | (12) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **46** | **64** | **36** | **146** |
| | | | | |
| Amorteiddiad | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | **46** | **67** | **0** | **113** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 2 | 7 | 9 |
| Gwarediadau | 0 | (12) | 0 | (12) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **46** | **57** | **7** | **110** |
| | | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | **0** | **7** | **29** | **36** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022 | 0 | 3 | 36 | 39 |

Ni amharwyd ar unrhyw asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

## 7. Symiau masnach derbyniadwy

| | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnach | 5 | 2 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 16 | 58 |
| | **21** | **60** |

Rhagdaliad yw swm sy'n cael ei dalu ymlaen llaw, fel arfer am eitemau fel ardrethi neu rent. Caiff ei gydnabod fel ased i ddechrau ac fe gaiff ei osod fel treuliau yn y cyfnod pan dderbynnir y buddiant.

Nid oedd symiau masnach derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 8. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 147 | 398 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | (76) | (251) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **71** | **147** |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 1 | 79 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 70 | 68 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **71** | **147** |

## 9. Symiau Masnach Taladwy a Rhwymedigaethau Eraill

| | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau masnach taladwy | 6 | 1 |
| Croniadau | 29 | 67 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **35** | **68** |

## 10. Rhwymedigaethau Prydlesi Hawl i Ddefnyddio

| | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 March 2022 £000 |
|---|---|---|
| Prydlesi a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn | 79 | - |
| Ad-daliadau | 0 | - |
| Cyllid llog ar brydles | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **80** | **-** |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau dan brydlesi:** | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 13 | - |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn, ond heb fod yn fwy na 5 mlynedd | 74 | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | 0 | - |
| Llai'r elfen llog | (7) | - |
| **Gwerth Presennol y rhwymedigaethau** | **80** | **-** |

## 11. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Ffioedd

| | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 97 | 89 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 0 | 8 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (30) | 0 |
| Darpariaeth a ryddhawyd | (67) | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **0** | **97** |

Roedd y ddarpariaeth hon yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r tâl dadfeiliad ar gyfer swyddfa flaenorol y Comisiynydd ar drydydd llawr Adeiladau Cambrian. Ar ôl i'r brydles ddod i ben, llwyddodd y Comisiynydd i negodi ffi llawer llai na'r hyn a amcangyfrifwyd gan syrfëwr meintiau.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai bach iawn fydd y tâl dadfeiliad ar swyddfa newydd y Comisiynydd ac felly ni ddarparwyd ar ei gyfer.

Yn unol ag IAS 37, bydd y diffyg darpariaeth hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol.

## 12. Ymrwymiadau Dan Brydlesi

Nodir cyfanswm taliadau prydles sylfaenol i'r dyfodol yn y tabl isod, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

| | 31 Mawrth 2023 £000 | 31 Mawrth 2022 £000 |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau dan brydlesi** | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dod i ben o fewn blwyddyn | 0 | 69 |
| Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd | 0 | 25 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 94 |

Yn ystod 2023, canslodd ac ildiodd y Comisiynydd y brydles weithredu ar gyfer swyddfa'r trydydd llawr.

## 13. Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau cyfalaf ar gontract ar 31 Mawrth nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y cyfrifon hyn. | 0 | 5 |

Mae gan y Comisiynydd Ymrwymiad Cyfalaf ar 31 Mawrth 2022 sy'n ymwneud ag uwchraddio gweinydd; mae disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Mai 2022.

## 14. Offerynnau Ariannol

Mae gofynion ariannol y Comisiynydd yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, nid yw'r Comisiynydd yn wynebu llawer o risgiau o ran hylifedd.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio. O ganlyniad, nid yw'r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd, cyfraddau llog nac arian tramor.

Does dim gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y gwerth ar y llyfrau a gwerth teg rhwymedigaethau ac asedau ariannol y sefydliad ar 31 Mawrth 2023 (31 Mawrth 2022: £dim).

## 15. Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2021-22: dim). Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo sy'n brydlesi neu'n gontractau PFI (2021-22: dim).

## 16. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu yn rhywle arall yn y cyfrifon hyn (2021-22: dim).

## 17. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2022-23 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1,568,750 gan Lywodraeth Cymru (2021-22: £1,301,000).

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2022-23, ni fu'r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Rheoli Busnes, nac unrhyw aelod o'u teulu, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r taliadau cyflog a'r hawliadau arferol am dreuliau.

## 18. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau o bwys rhwng diwedd y flwyddyn ac adeg cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 26 Medi 2023 gan Heléna Herklots CBE.